

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU	AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 3 RHAGFYR 2019 am 2.00 y. p.	TUESDAY, 3 DECEMBER, 2019 at 2:00 p.m.
SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

R. Llewelyn Jones, Peter Rogers (*Cadeirydd/Chair*)

AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Dilwyn Evans,
Jonathan Mendoza (*Is-Gadeirydd/Vice-Chair*)

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 3 Medi, 2019.

3 **CYNGOR SIR YNYS MÔN: LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2018/19** (Tudalennau 17 - 20)

Cyflwyno'r Llythyr Archwilio Blynyddol am 2018/19.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELWCH SEIBER 2019** (Tudalennau 21 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid

5 **ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20** (Tudalennau 33 - 50)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

6 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 51 - 70)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 **ADOLYGU CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** (Tudalennau 71 - 82)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 83 - 86)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

9 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 87 - 88)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol -

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig."

10 **POLISI GWIRIO AR SAIL RISG** (Tudalennau 89 - 106)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi, 2019

PRESENNOL:	Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd) Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn) Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, G.O. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 5,6 a 7) Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP) Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 3) Rheolwr Gwasanaeth - Tai Cymunedol (LIW) (ar gyfer eitem 3) Prif Archwilydd (NRW) Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN) (ar gyfer eitem 8) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Alun Roberts, Mrs Margaret M. Roberts, Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg ac Is-Gadeirydd), Mr Alan Hughes (SAC), Mr Chris Tidswell (CIPFA)
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Mr Ian Howse (Partner Ymgysylltu - Deloitte) (ar gyfer eitem 4), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Uwch Archwilydd (JR), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes. (GM)

Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd, etholwyd Mr Dilwyn Evans, Aelod Lleyg yn Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unig.

1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Richard Griffiths ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 3 ar y rhaglen ar y sail ei fod yn perthyn i swyddog yn y Gwasanaeth Tai.

2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 27 GORFFENAF, 2019

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2019, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

3. MATER YN CODI O'R COFNODION – DIWEDDARIAD AR BROFFILIO TENANTIAID

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn darparu gwybodaeth am waith y Gwasanaeth Tai Cymunedol mewn perthynas â phroffilio tenantiaid. Cyflwynwyd y wybodaeth yn dilyn cyflwyno adroddiad archwilio mewnol i gyfarfod

y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 23 Gorffennaf, 2019 a gododd y diffyg proffilio tenantiaid fel "Mater / Risg." Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ddod i'w gyfarfod nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ynghylch proffilio tenantiaid.

Dyweddodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ei fod yn deall pryder y Pwyllgor nad oedd cymaint o gynnydd ag y gobeithiwyd wedi'i wneud gyda phroffilio tenantiaid a bod rhesymau dilys am hynny. Derbyniodd y Swyddog ei fod yn hollbwysig sicrhau bod y wybodaeth sydd gan y Gwasanaeth am ei denantiaid yn gyfredol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol a'u bod yn cwrdd ag anghenion tenantiaid.

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai Cymunedol) y Pwyllgor fod yr holl dai Cyngor yn cael eu cofnodi ar System Rheoli Perthynas â Chleientiaid, sef Orchard. Yn ogystal â chadw gwybodaeth am bob tenant, mae'r system Orchard hefyd yn cynnwys gwybodaeth am hanes tenantiaethau, gwybodaeth am ôl-ddyledion, rhyngweithiau rhwng swyddogion, cofnod o dor-tenantiaethau a dadansoddiad o gynhwysiad ariannol. Gall cael proffiliau cywir o'r tenantiaid helpu'r adran i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol ochr yn ochr â'r gwasanaethau cyfredol, megis yr ymateb i Gredyd Cynhwysol. Yn weithredol, cyfrifoldeb y tîm gwasanaeth cwsmeriaid yw proffilio tenantiaid, sef tîm sy'n cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i chwe swyddog amser llawn sy'n delio ag ymatebion i ymholiadau am waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd, ymateb cyswllt cyntaf ar gyfer gosod tai, ynghyd â digartrefedd a phroffilio tenantiaid. Mae lefelau staffio yn y maes gofal cwsmer wedi amrywio trwy gydol y flwyddyn ac mae hynny wedi bod yn rhwstr rhag diweddarau proffiliau tenantiaid ar sail barhaus. Mae nifer y bobl sydd wedi cysylltu oherwydd digartrefedd wedi cynyddu ac mae hynny wedi arwain at fwy o alwadau i'r tîm gofal cwsmer er mwyn helpu'r rheini sy'n ddigartref, neu sydd dan fygythiad o ddod yn ddigartref. Hefyd, mae'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid ar hyn o bryd yn gweithredu o ddwy swyddfa ac ynddynt dri swyddog yr un bob diwrnod gwaith. Ystyrir bod gweithio o ddwy swyddfa yn her; mae cael tîm ar wasgar gyda lefelau staffio cyfnewidiol yn golygu mai ymateb i'r galwadau sy'n dod i mewn fu blaenoriaeth y tîm. I'r dyfodol, mae'r tîm Uwch Reolwyr Tai wedi cytuno y bydd y tîm Gofal Cwsmer yn gweithio o un lleoliad ac mae trafodaethau wedi cychwyn i benderfynu pa swyddfa fyddai fwyaf addas yn y tymor hir. Unwaith y bydd y tîm wedi ymgartrefu mewn un lleoliad, bydd un swyddog yn canolbwyntio ar broffilio bob dydd. Mae mwyafrif y tenantiaid yn parhau i gysylltu â'r Gwasanaethau Tai dros y ffôn gan olygu bod y gwasanaeth yn ymateb yn barhaus i alwadau. O fis Ionawr, 2020, bydd y ffocws ar gynllun 2 flynedd lle bydd tenantiaid yn gallu rhoi gwybod am faterion a rheoli eu tenantiaethau ar blatfform digidol sy'n gysylltiedig â'r system Orchard. Fel sicrwydd pellach i'r Pwyllgor, mae'r Gwasanaethau Tai yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan O'Toole a Chyngor ar Bopeth ar faterion mewn cysylltiad â Chredyd Cynhwysol. Mae'r Cyngor wedi comisiynu adroddiadau gweithredu polisi dair gwaith y flwyddyn sy'n tynnu sylw at ardaloedd problemus o ran Credyd Cynhwysol ac mae'r hyb Credyd Cynhwysol wedi'i ddiweddarau i ganolbwyntio ar ffactorau sy'n gysylltiedig â materion sy'n codi ar ôl gweithredu Credyd Cynhwysol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth, data gwybodaeth a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r rheini yr effeithir arnynt gan newid yn eu budd-dal.

Cyfeiriodd y Swyddog at y ffyrdd o broffilio tenantiaid a ddefnyddiwyd cyn Mehefin 2019, cyn yr adolygiad archwilio, ac wedyn ar ôl Mehefin, 2019 ar ôl cynnal yr adolygiad archwilio. Bydd dulliau proffilio tenantiaid yn y dyfodol yn cynnwys datblygu strategaeth proffilio tenantiaid; lansio'r strategaeth yn fewnol a gweithio ar brif ffrydio gwaith proffilio tenantiaid gyda'r gwasanaethau tai; lansio'r strategaeth yn allanol gyda thenantiaid, gan bwysleisio pwysigrwydd proffilio tenantiaid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gwasanaeth Tai am newidiadau i'r proffil; annog tenantiaid i gwblhau eu proffil eu hunain ar y porth tenantiaid digidol o fis Ionawr 2020 ymlaen a swyddogion gofal cwsmeriaid yn targedu tenantiaid trwy gael eu gweld yn amlycach ar stadau tai.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai hefyd, er budd rhei sicrwydd, nad mater mo hwn ynghylch a oes gan y Gwasanaeth wybodaeth am ei denantiaid – oherwydd bod y wybodaeth honno ganddo eisoes– yn hytrach mae'n ymwneud ag yw'r wybodaeth sydd ganddo mor gyflawn a chyfredol ag y gallai fod. Mae gan y Gwasanaeth raglen ar gyfer cynyddu ei wybodaeth am y proffil tenantiaid, gan gynnwys gofyn i denantiaid gwblhau holiadur proffilio a dod ag ef gyda nhw pan fônt yn arwyddo i dderbyn eiddo. O ystyried bod system Orchard yn cael ei diweddarau'n rheolaidd a dim ond y mis hwn wedi cynhyrchu llif gwaith i hwyluso gwaith proffilio tenantiaid, y gobaith yw y bydd proffilio tenantiaid bellach yn dod yn rhan annatod o'r gwaith dydd i ddydd. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi ymrwymo i wella gwaith proffilio tenantiaid er mwyn cefnogi eu gwasanaethau, ac unwaith y bydd y tîm Gofal Cwsmer mewn un lleoliad, bydd mesurau ar waith i sicrhau dull mwy rhagweithiol o broffilio. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai ac yn bwriadu cynnwys proffilio fel un o'r meysydd yr adroddir arno.

Wrth groesawu'r adroddiad - ac yn benodol y bwriad i ddatblygu strategaeth proffilio tenantiaid – fel un oedd yn rhoi sylw i'w bryderon o'r cyfarfod diwethaf, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pa gynnydd yr oedd y Gwasanaeth yn ystyried y byddai wedi ei wneud gyda phroffilio tenantiaid erbyn chwe mis o rŵan. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai Cymunedol), a siarad yn realistig, ac yng ngoleuni bod blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i waith ar yr Arolwg Cwsmer STAR yn ddiweddar, ei fod yn rhagweld y gellir gwneud gwelliant o 8% erbyn diwedd y flwyddyn yn y sefyllfa proffilio tenantiaid ar ôl anfon gwybodaeth ychwanegol at yr holl denantiaid.

Penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu –

- **Yn derbyn bod mesurau ar waith i wella proffilio tenantiaid yn yr Adran Dai;**
- **Yn cytuno bod angen datblygu strategaeth proffilio tenantiaid i sicrhau bod yr agwedd hon yn cael ei phrif ffrydio o fewn yr adran; a**
- **Cytuno hefyd bod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai mewnl adolygu gwaith proffilio tenantiaid bob chwarter am gyfnod cychwynol o 12 mis.**

NI CHYNGIWDYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL

4. DATGANIAD CYFRIFON 2018/19 AC ADRODDIAD ISA 260

4.1 Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad Terfynol ar Gyfrifon 2018/19 yn dilyn eu harchwilio.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y llwyddwyd unwaith eto i gwrdd â'r dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon archwiliedig 2018/19. Gwnaed y gwelliannau a nodwyd yn y broses archwilio y llynedd ac maent yn parhau. Ymdriniwyd yn brydlon ac yn foddhaol â'r holl faterion oedd wedi codi yn yr archwiliad.

Dywedodd y Swyddog fod manylion y prif welliannau i'r cyfrifon drafft wedi'u nodi yn adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar y Datganiadau Ariannol isod. Mae'r holl welliannau y cytunwyd arnynt fel rhai y mae'r archwilwyr, Deloitte wedi dweud bod gofyn eu hailddatgan wedi cael eu prosesu a'u cynnwys yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Nid oedd y diwygiadau i'r Datganiad drafft yn sylweddol ac maent wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ddiwygiadau i nifer fach o nodiadau datgelu a'r Datganiad Llif Arian. Ar hyn o bryd ni wnaed unrhyw newidiadau ariannol i refeniw na chyfalaf sy'n golygu bod y prif ddatganiadau ariannol yn aros yr un fath. Mae adroddiad yr Archwilwyr yn tynnu sylw at gamddatganiad parhaus sydd heb ei gywiro o 2017/18 mewn cysylltiad â sut y

triniwyd y lwmp swm pensiwn ar gyfer costau pensiwn hanesyddol nad ydynt wedi eu hariannu. Mae hyn yn ymwneud â dehongliadau gwahanol o'r trefniadau cyfrifyddu ar gyfer y lwmp swm a dalwyd yn 2017/18 ar gyfer y costau hyn a arweiniodd at arbediad oddeutu £ 200k. Ni chafodd hyn ei newid oherwydd y gwahaniaeth yn nehongliad yr Awdurdod a'r Archwilydd o ganllawiau ysgrifenedig ar y mater.

Yn dilyn eu gwaith ar y Datganiad Cyfrifon, mae'r Archwilwyr wedi gwneud 3 argymhelliad mewn perthynas â chyfrifyddu a rheoli'r gyflogres; 1 argymhelliad mewn perthynas â TG ac 1 argymhelliad mewn perthynas â rheolaethau corfforaethol y manylir arnynt yn eu hadroddiad ISA 260.

O ran y camddatganiad na chafodd ei gywiro, eglurodd y Swyddog fod yr Awdurdod, yn 2017/18, wedi gwneud taliad lwmp swm o£3.66m i Gronfa Bensiwn Gwynedd am y tair blynedd hyd at 2019/20 ar y sail y byddai'r swm hwn yn cael ei fuddsoddi ac y byddai'r Awdurdod yn derbyn disgownt (byddai'r enillion ar y buddsoddiad fel rhan o arian y gronfa bensiwn gyfun yn fwy na phe bai'r Awdurdod wedi buddsoddi'r swm ar ei ben ei hun). Mae'r Archwilwyr o'r farn y dylai'r taliad fod wedi'i godi ar y cyfrif refeniw fel gwariant yn 2017/18 yn y flwyddyn y cafodd ei wneud. Mae'r Awdurdod o wahanol farn ac, o ganlyniad, er mwyn lleihau effaith y taliad ar falans cronfa gyffredinol y Cyngor, cytunwyd i greu cronfa wrth gefn negyddol a fydd yn dirwyn i ben dros y tair blynedd gan olygu y bydd y swm wedi diflannu o'r cyfrifon erbyn y flwyddyn nesaf.

4.2 Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19 (adroddiad ISA 260) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cadarnhaodd Mr Ian Howse, Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol, yn amodol ar gwblhau'r gwaith sy'n weddill yn foddhaol fel yr amlinellir ym mharagraff 6 o'r adroddiad, mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y bydd yr Awdurdod wedi darparu Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad. O ran canlyniadau archwilio, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at gamddatganiad nad yw wedi'i gywiro gan y Rheolwyr mewn perthynas â chategoreiddio cyfraniad o £3.66m a wnaed gan y Cyngor i Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer yr elfen sefydlog o gyfraniadau'r cyflogwr am y Cyfnod 3 blynedd 2017/18 i 2019/20, (Yn ôl safonau cyfrifyddu mae'n rhaid cydnabod rhai eitemau yn ystod y flwyddyn y gwneir y taliad yn hytrach na'i wasgaru dros gyfnod o amser fel mae'r Awdurdod wedi ei wneud gyda'r taliad cyfraniad pensiwn). Amlinellir camddatganiadau a gywirwyd gan y Rheolwyr ym mharagraff 10 yr adroddiad. Roedd y Cynllun Archwilio Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Ebrill yn darparu gwybodaeth ynghylch y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod proses gynllunio'r Archwilwyr. Mae'r tabl yn adran 12 yr adroddiad yn nodi canlyniad gweithdrefnau archwilio'r Archwilwyr wrth fynd i'r afael â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol. Nid oes gan yr Archwilwyr unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol yr arferion cyfrifyddu a threfniadau adrodd ariannol y Cyngor a chanfuwyd bod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymharol, yn berthnasol ac yn hawdd ei deall. Mae polisiâu ac amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol ac mae datgeliadau ar ddatganiadau ariannol yn ddiuedd, yn deg ac yn glir. Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad ac nid oes unrhyw faterion arwyddocaol y mae angen adrodd arnynt o ran goruchwilio'r broses adrodd ariannol. Dangosir yr argymhellion sy'n codi o'r gwaith archwilio ariannol ynghyd ag ymateb y Rheolwyr iddynt yn Atodiad 3. Mae'r rhain yn feysydd lle mae'r Archwilwyr Allanol wedi nodi cyfleoedd i wella pe bai adnoddau'n caniatáu, ond nid ydynt yn effeithio ar y farn archwilio gyffredinol. Rhoddir sylw i'r rhain y flwyddyn nesaf a bydd unrhyw faterion sy'n weddill yn cael eu cynnwys yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau isod –

- Nododd y Pwyllgor fod gwahaniaeth barn o ran trin y taliad o £3.66m a wnaed gan y Cyngor i Gronfa Bensiwn Gwynedd. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod yr Archwilwyr Allanol yn gyffyrddus ag agwedd yr Awdurdod tuag at y mater a'r ffordd y mae wedi cyfrif am y taliad yn y datganiadau ariannol.

Cadarnhaodd Mr Ian Howse nad yw'r Archwilwyr Allanol yn ystyried bod y camddatganiad yn berthnasol (y lefelau lle ystyrir bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn achos Cyngor Sir Ynys Môn yw £4.91m) o ran effeithio ar farn y darllenwyr am y cyfrifon o ran y casgliadau y gallent ddod iddynt ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod, a dyna pam yr argymhellwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi barn ddiamedod ar y datganiadau ariannol. Pe bai'r Archwilwyr wedi bod yn anghyffyrddus â'r camddatganiad yna byddent wedi argymhell y dylid cyhoeddi barn archwilio amodol.

- Gan gyfeirio at argymhellion yr Archwilwyr mewn perthynas â pharamedrau cyfrineiriau, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod dull yr Awdurdod o sicrhau diogelwch cyfrineiriau a rheoli cyfrineiriau yn briodol gadarn. Eglurodd y Swyddogion fod staff bellach yn cael eu cynghori i ddefnyddio cyfrinair gyda 9 nod (yn hytrach na 7 fel yn flaenorol) a bod hynny'n cynnig mwy o ddiogelwch ond nid yw mor gymhleth fel ei fod yn gwneud cyfrineiriau yn anodd eu cofio, sy'n golygu bod staff yn llai tebygol o'u hysgrifennu sy'n groes i bolisi. Mae'r cyfrineiriau mewn grym am gyfnod hwy hefyd. Mae defnyddwyr yn cael eu cloi allan ar ôl tair ymdrech aflwyddiannus i fewngofnodi a phan fo hynny'n digwydd mae'n rhaid i'r defnyddiwr gysylltu â'r Ddesg Wasanaeth / Gweinyddwr y Systemau Gwasanaeth TG i ofyn iddynt ddatgloi'r cyfrifiadur. Gyda rhai systemau (ond nid yr un ar gyfer y Gyflogres) mae cyfrinair y system wedi'i gysylltu â chyfrinair y rhwydwaith ac felly nid oes angen dau gyfrinair ar wahân.

O ran yr argymhellion a wnaed gan yr Archwiliad Allanol, rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sicrwydd i'r Pwyllgor fod y rhain yn cael sylw ond y gall yr argymhellion sy'n ymwneud â rheolaethau'r gyflogres gymryd mwy o amser i fynd i'r afael â hwy oherwydd ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cyflogres / Taliadau sy'n broses hir. Bydd yr ailstrwythuro, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, yn mynd i'r afael â'r materion gwahanu dyletswyddau y mae'r Archwilwyr wedi'u hamlygu. Fodd bynnag, weithiau gall fod yn anoddach gwahanu dyletswyddau'n glir mewn tîm llai ac yn arbennig felly ar adegau o absenoldebau staff, gan olygu y bydd yn rhaid gwneud gwiriadau ar adegau o'r fath ar ôl talu yn hytrach na chyn talu.

Penderfynwyd –

- **Derbyn a nodi'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2018/19 ac argymhell bod y Cyngor Llawn yn ei dderbyn.**
- **Nodi Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018/19 a chyfeirio'r Datganiad at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi.**

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL

5. LLYWODRAETHU GWYBODAETH - ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (UBRG)

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) sy'n darparu dadansoddiad o'r materion llywodraethu gwybodaeth (LIG) allweddol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2018 a 31 Mawrth, 2019 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd o welliant parhaus o ran rheoli risg gwybodaeth yn ystod y cyfnod.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth dynodedig (UBRG) ar y prif bwyntiau fel a gilyn -

- Cofnodwyd 29 o ddigwyddiadau diogelwch data yn ystod y cyfnod adrodd (20 yn 2017/18) ac roedd 26 ohonynt ar Lefel 0-1 (digwyddiadau trwch blewyn neu rai a gadarnhawyd fel digwyddiadau diogelwch data ond nad oedd angen adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) a rheoleiddwyr eraill amdanynt) a 3 ar Lefel 2 (digwyddiadau diogelwch data y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r SCG a rheoleiddwyr eraill sy'n briodol). Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad o natur y digwyddiadau.
- Derbyniwyd 1,052 o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd a oedd yn cynnwys cyfanswm o 7,532 o gwestiynau.
- Cafwyd 20 cais am Adolygiad Mewnol o ymateb i gais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mewn 9 achos, cadarnhaodd yr adolygiad yr ymateb gwreiddiol; ni chadarnhawyd 1 achos ac anfonwyd ymateb Adran 1 newydd, a gwrthodwyd 1 cais gan fod ymateb wedi'i anfon cyn derbyn y cais am adolygiad mewnol.
- Cyflwynwyd 6 apêl i'r SCG yn y cyfnod. Mewn 4 achos, gofynnwyd i'r Cyngor anfon ymateb; tynnwyd 1 achos yn ôl ac mewn 1 achos cadarnhawyd ymateb y Cyngor.
- Gwnaed ac ymchwiliwyd i 8 cwyn dan y Ddeddf Diogelu Data – 2 cyn i'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ddod i rym a 6 ar ôl iddynt ddod i rym. Nid ymchwiliodd yr SCG i unrhyw gwynion Deddf Diogelu Data.
- Derbyniwyd 46 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth gydag 81% o'r ymatebion yn cael eu hanfon o fewn y dyddiad cau statudol ar gyfer ceisiadau o'r fath a cheisiadau cymhleth.
- Mae Swyddfa'r Comisiynwyr Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn goruchwyllo sut mae awdurdodau lleol yn cynnal gweithgareddau o ran ffynonellau gwyliadwriaeth a chuddwybodaeth ddynol yn unol â Deddf yr Heddlu 1997 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Nod cyfundrefn RIPA yw sicrhau bod gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd yn digwydd mewn ffordd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Ychydig iawn o ddefnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o wyliadwriaeth gudd a ffynonellau cuddwybodaeth ddynol (cyfeirier at Atodiad 1 i'r adroddiad). Archwiliwyd prosesau ac arferion y Cyngor gan Swyddfa'r Comisiynwyr Pwerau Ymchwilio yn ystod mis Medi 2018 a chadarnhaodd yr archwiliad fod lefel cydymffurfiaeth y Cyngor yn golygu nad oedd angen unrhyw arolygiad corfforol ac mai'r cwbl yr oedd raid i'r Cyngor ei wneud oedd cynnal adolygiad o'i awdurdodiad CHIS cyfredol, gwneud mân newidiadau i'w Ddogfennau a darparu hyfforddiant gloywi ar gyfer swyddogion awdurdodi ac ymgeiswyr.
- Yn dilyn ymlaen o'r cyfnod cychwynnol o weithredu'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), 'roedd dadansoddiad o ddogfennau sicrhau diogelwch data'r Cyngor yn awgrymu bod meysydd allweddol yr oedd gofyn eu datblygu ac ymchwilio ymhellach iddynt. Cafodd yr elfennau hyn eu hymgorffori mewn Cynllun Diogelu Data ar gyfer y Flwyddyn (Atodiad 2 i'r adroddiad). Mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â materion sy'n peri'r risgiau uchaf i'r Cyngor yn y Gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn risg uchel oherwydd natur y prosesu data personol sy'n digwydd ynddynt. Dyma pam y rhoddir sylw arbennig i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaeth Dysgu (sy'n cynnwys yr Awdurdod Addysg Lleol) a'r Gwasanaeth Tai.
- Mae pwysigrwydd hyfforddiant fel diogelwch ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelu data yn glir. Er bod y Cyngor wedi bod yn rhoi hyfforddiant ar faterion diogelu

data ers 2013, roedd cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd ar ddiogelu data yn 2018 yn golygu bod rhaid rhoi hyfforddiant newydd yn gyffredinol. Mae'r adroddiad yn manylu ar yr hyfforddiant a ddarparwyd trwy'r modiwl E-ddysgu a gyflwynwyd i'r holl staff er mwyn sicrhau bod ganddynt lefel sylfaenol o wybodaeth am ofynion GDPR. Mae'r modiwl hefyd yn dangos lefelau cyfranogi pob gwasanaeth. Mae cyfranogiad Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig yn yr hyfforddiant diogelu data hefyd yn cael ei gofnodi.

- Yn ogystal, datblygwyd modiwl hyfforddi a fwriadwyd ar gyfer swyddi y mae cofnod y Cyngor o ddigwyddiadau diogelwch data yn dangos bod ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau diogelwch data a chydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth. Cyflwynwyd yr hyfforddiant i staff rheng flaen a rheolwyr canol oherwydd bod y swyddi hynny'n bwysig o ran sicrhau diogelwch data. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau dan arweiniad hyfforddwr ar gyfer y staff hynny yr oedd eu Penaethiaid Gwasanaeth yn ystyried eu bod mewn swyddi allweddol - dangosir lefelau presenoldeb ar gyfer pob gwasanaeth yn yr adroddiad ac nid ydynt ond yn cynnwys y rheini a enwebwyd i fynychu'r hyfforddiant gan eu Penaethiaid Gwasanaeth.
- Ar wahân i hyfforddiant, yr elfen allweddol bwysicaf o'r Cynllun Gwaith oedd archwilio dibyniaeth Gwasanaethau'r Cyngor ar ganiatâd fel sail ar gyfer prosesu data personol. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i adolygu ei ddefnydd o ganiatâd ac i gymryd camau cywiro os nad caniatâd yw'r sail gyfreithiol briodol ar gyfer prosesu data personol. Mae'r archwiliad wedi arwain at fwy o wybodaeth am brosesau'r Gwasanaethau ac er bod y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Tai wedi gwneud cynnydd ardderchog gyda'r archwiliad, nid oedd y Gwasanaeth Dysgu wedi medru neilltuo'r adnoddau sydd eu hangen i flaenoriaethu'r gwaith hwn ac felly ychydig o gynnydd a wnaeth. Bydd y Gwasanaeth yn cael cymorth i sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth nesaf. 'Roedd gwaith i sicrhau ansawdd yr archwiliad yn parhau ar ôl cyfnod yr adroddiad.
- Mae'r adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd mewn perthynas â darparu sicrwydd Camerâu Goruchwylio, gan nodi hefyd nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a Chôd y Comisiynydd Camerâu Goruchwylio.

Wrth drafod yr adroddiad, holodd y Pwyllgor am y gost o fynd i'r afael â'r 1,052 o geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd y Cyngor yn ystod y cyfnod ac a oes gan y Cyngor y capasiti i ddelio'n effeithiol â'r gwaith hwn o ystyried nifer y ceisiadau. Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw peidio â bod yn ddigon agored neu dryloyw o ran argaeledd gwybodaeth yn ffactorau y gellir eu priodoli i'r cynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro na wnaed amcangyfrif o'r gost o ran yr amser a gymerir gan y Swyddog i ddelio â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan fod y gyfraith yn dweud bod rhaid i'r Cyngor ymateb i'r ceisiadau a darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani oni bai bod rheswm da dros beidio (h.y. mae'r wybodaeth yn wybodaeth eithriedig). Manion na fyddai'r Cyngor yn eu cyhoeddi fel mater o drefn yw llawer o'r wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Cyngor gael cynllun cyhoeddi a chyhoeddi gwybodaeth y mae'n rhesymol iddo ei chyhoeddi. Adolygwyd hyn yn ddiweddar. Mwyaf yn y byd o wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei chyhoeddi fel mater o drefn, lleiaf yn y byd o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a geir, ond, serch hynny, nid yw'n gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran y niferoedd a dderbynnir. Mae cyflwyno'r rheoliadau GDPR wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac o ganlyniad, mae'r cynnydd mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn batrwm sy'n cael ei ailadrodd ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r capasiti i ddelio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ymestyn ar draws yr Awdurdod yn yr ystyr mai'r swyddogion a ddynodwyd i ddelio â Rhyddid Gwybodaeth yw'r rhai sy'n gwneud y gwaith yn eu meysydd ac sy'n ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o'r dyletswyddau hynny. Er yr ystyrir bod y capasiti'n ddigonol ar hyn o bryd,

gofynnwyd i'r Penaethiaid Gwasanaeth dynnu sylw at unrhyw faterion a allai godi, yn enwedig o ganlyniad i geisiadau mwy cymhleth a all gymryd llawer o amser.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn ac yn mabwysiadu argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn –

- **Bod yr holl Aelodau nad ydynt hyd yma wedi cyflawni'r modiwl diogelu data e-ddysgu yn gwneud hynny cyn pen tri mis i'r cyfarfod hwn.**
- **Bod y Gwasanaeth Dysgu yn sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i sicrhau bod yr archwiliad caniatâd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth, 2020.**
- **Bod archwiliad y Cyngor o'i systemau camerâu goruchwyllo'n cael ei gefnogi gan y gwasanaethau;**
- **Bod y Swyddog Diogelu Data ar gyfer Ysgolion yn ystyried risgiau camerâu goruchwyllo ac yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion ar arferion gorau.**
- **Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r camau sy'n weddill yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Diogelu Data fel rhai sy'n adlewyrchu'r risgiau llywodraethu gwybodaeth y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar hyn o bryd.**

NI CHYNYGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL: PRYDERON, CWCYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2017/18

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn darparu gwybodaeth am faterion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor am y cyfnod 1 Ebrill, 2018 i 31 Mawrth, 2019. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddiwr gwasanaeth o dan Weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol ac adroddir arnynt yn flynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y prif bwntiau fel a ganlyn –

- Yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn rhoi sylw iddo, derbyniwyd 62 o bryderon a gwnaed 76 o gwynion. O'r 76 o gwynion, mae un (Tai) yn parhau i fod yn agored gan nad yw'r gwaith y mae angen ei wneud wedi'i gwblhau ac mae un arall (Cynllunio) ar stop am y tro ar hyn o bryd gan fod y Cyngor yn aros i glywed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Felly, ymchwiliwyd ac ymatebwyd i 74 o gwynion yn ystod y cyfnod hwn. Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd yn parhau i fod ar tua'r un lefel ag yn 2017/18.
- O'r 74 o gwynion yr ymdriniwyd â hwy yn ystod y cyfnod, cadarnhawyd 16 yn llawn, cadarnhawyd 7 yn rhannol ac ni chadarnhawyd 51 ohonynt. Cyfeiriwyd 9 cwyn i OGCC, gwrthodwyd 5 gan OGCC a datryswyd 4 (Adnoddau) trwy ddatrysiad cynnar. Roedd pob un o'r 9 cwyn a uwchgyfeiriwyd at OGCC wedi bod trwy'r broses fewnol. Darperir dadansoddiad o'r pryderon a'r cwynion fesul gwasanaeth yn yr adroddiad.
- Ymatebwyd i 92.6% o'r cwynion o fewn y terfyn amser penodedig (20 diwrnod gwaith). Roedd 9% o'r cwynion a dderbyniwyd (i fyny o 5% yn 2017/18) yn deillio o bryderon a uwchgyfeiriwyd. Mae hynny'n parhau i ddangos bod gwasanaethau'n delio'n effeithiol â phryderon a thrwy hynny'n cyfyngu nifer y cwynion ffurfiol.
- Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a thrwy hynny wella gwasanaethau. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad yn egluro pa wersi a ddysgwyd ac unrhyw arfer sydd wedi esblygu o ganlyniad i'r canfyddiadau hyn.

- Os yw'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ag ymateb y Cyngor i gŵyn, mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn cynnwys yr opsiwn o uwchgyfeirio'r gŵyn i OGCC. Roedd 18 o gwynion wedi eu huwchgyfeirio trwy'r broses hon o fewn amserlen OGCC - dim ond 1 a ystyriwyd yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad; mater Priffyrdd oedd hwn ac ymdriniwyd ag ef trwy i'r Cyngor gyuno i ddatrysiaid gwirfoddol cynnar.
- Yn ystod 2018/19, derbyniodd OGCC 1 gŵyn cōd ymddygiad yn erbyn Cynghorydd Sir ond cafodd ei chau ar ôl yr asesiad cychwynol. Ni chafwyd unrhyw ymchwiliadau yn erbyn Cynghorwyr Sir.
- Er na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud ag iaith yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd a chofnodwyd 4 mynegiad o bryder yn ymwneud â'r materion a gofnodwyd yn yr adroddiad. Datryswyd pob un o'r 4 heb iddynt gael eu huwchgyfeirio i fod yn gwynion ffurfiol.
- Yn ystod 2018/19, derbyniwyd 1 pryder chwythu'r chwiban o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ac fe'i nodir yn yr adroddiad.

Penderfynwyd –

- **Derbyn bod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau sy'n ofynnol o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a'i Bolisi / Canllawiau Chwythu'r Chwiban.**
- **Derbyn a nodi'r Tabl Gwersi a Ddysgwyd fel yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL.

7. DERBYN POLISI'AU – DATA CYDYMFFURFIAETH BLWYDDYN 1

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn darparu manylion am gydymffurfiaeth ynghylch yr ail rownd o bolisiau a gyflwynwyd i'w derbyn trwy system Porth Polisi'r Cyngor yn ogystal â lefelau cydymffurfio'r Gwasanaeth Dysgu o ran y rownd gyntaf o bolisiau. Mae'r data a gyflwynir yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael yn 16/17 ac 19 Gorffennaf, 2019.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y prif bwytiau fel a ganlyn –

- Bod 8 polisi - Polisi Diogelu Data; Polisi Diogelwch TG, Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Polisi Defnydd Derbyniol TG, Polisi Diogelu, Cōd Ymddygiad Swyddogion, Polisi Defnydd E-bost a Negeseuon Gwib a'r Polisi Chwythu'r Chwiban - ar gael i'w derbyn rhwng 2 Gorffennaf, 2018 a 3 Mehefin, 2019 fel y penderfynwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA). Cyflwynwyd y polisi terfynol yn y gyfres gyfredol – y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - i'w dderbyn ar 29 Gorffennaf a bydd y cyfnod derbyn o chwe wythnos yn cau ar 9 Medi, 2019.
- Mae manylion lefelau cydymffurfio ar gyfer yr 8 polisi ar draws y Cyngor a thrwy'r gwasanaethau ar gael yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Ar gyfartaledd, mae'r lefelau cydymffurfiaeth at gyfer yr holl bolisiau yn 95% ar draws y Cyngor, sydd yr un fath â llynedd. Mae hyn o gymharu â chyfartaledd o 87% ar ddiwedd y cyfnod derbyn o chwe wythnos a osodwyd ar gyfer pob polisi, sy'n welliant ar y ffigwr o 79% y llynedd.
- Adroddwyd y llynedd bod lefelau cydymffurfiaeth yn y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol gyda chyfradd gydymffurfio ar gyfartaledd o 99% ar 24 Gorffennaf, 2018 o'i gymharu â chyfartaledd o 57% ar ddiwedd y cyfnod derbyn o chwe wythnos. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i wella ac wedi cyflawni cyfradd gydymffurfio o 100% ar gyfer pob un o'r 8 polisi a chydymffurfiaeth 100% ar ddiwedd y cyfnod derbyn o chwe wythnos ar gyfer y 4 polisi diwethaf.

- Gellir gweld gwelliant sylweddol hefyd yn y Gwasanaethau Oedolion ym mis Gorffennaf, 2019 gyda'r lefelau cydymffurfio yn 92% o gymharu â 78% ym mis Gorffennaf, 2018. Mae staff y Gwasanaeth Dysgu wedi bod yn rhan o'r broses gorfforaethol ers mis Gorffennaf 2018 a bu gofyn iddynt ddal i fyny trwy dderbyn y 7 polisi cyntaf yn ogystal â derbyn yr ail rownd o bolisiau wrth iddynt gael eu rhyddhau i'w derbyn. Mae Atodiad 2 yn nodi lefelau cydymffurfio'r gwasanaeth gan ddangos cyfradd gydymffurfio ar gyfartaledd o 99%.
- Yn dilyn adolygiad gan yr UDA, bydd nifer y polisiau yn y set graidd yn gostwng o 16 i'r 9 polisi a restrir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad. Dim ond unwaith ym mhob cyfnod o 2 flynedd y bydd angen derbyn y 9 polisi hyn ond byddant ar gael trwy gydol yr amser hwnnw ar gyfer staff newydd.
- Mae'r Porth Polisi yn dibynnu ar Gyfeiriadur Gweithredol (CG) y Cyngor ac mae'n cynnwys tua 1,000 o ddefnyddwyr gweithredol. Cydnabuwyd dibyniaeth y Porth ar y CG fel gwendid o'r cychwyn cyntaf gyda'r Pwyllgor hwn yn codi pryderon nad yw staff sydd ddim yn defnyddio'r CG yn cael eu cynnwys yn y broses. Cydnabuwyd y gallai fod angen gwahanol ddulliau i gyrraedd y gwahanol categorïau o staff nad ydynt yn defnyddio'r CG ac er mwyn symud ymlaen â'r mater hwn, cynhelir trafodaethau gyda phob Pennaeth Gwasanaeth perthnasol i nodi'r categorïau risg uchaf ac atebion cymesur ac ymarferol posib i fynd i'r afael â'r risg.
- Disgwylir i staff nad ydynt, yn dechnegol, yn cael eu cyflogi gan y Cyngor ac sy'n gweithio i bartneriaethau ac asiantaethau ac ati weithio yn unol â pholisiau a gweithdrefnau'r Cyngor, yn enwedig o ran diogelu data, diogelwch, cyfrinachedd ac ymddygiad. Felly mae angen sicrwydd ar yr Awdurdod bod yr unigolion hyn yn ymwybodol o bolisiau allweddol y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio â nhw. I'r perwyl hwn, cynigir cyflwyno datganiad yn gofyn i staff nad ydynt, yn dechnegol, yn weithwyr y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o rai polisiau corfforaethol a'u bod yn glynu wrthynt.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sut y cedwir llygad ar lefelau cydymffurfio ar draws y Cyngor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y cyflwynir y lefelau cydymffurfio fesul gwasanaeth i'r UDA ar ddiwedd y cyfnod derbyn o 6 wythnos a neilltuwyd ar gyfer pob polisi. Cynhyrchir e-bost atgoffa wythnosol yn awtomatig gan y Porth Polisi yn rhestru'r holl bolisiau sy'n weddill ar gyfer pob defnyddiwr. Mae gan bob Pennaeth Gwasanaeth fynediad uniongyrchol i'r Porth hefyd i fonitro cydymffurfiaeth yn eu gwasanaethau eu hunain. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y Porth Polisi gan staff ysgolion gan fod ganddynt eu system eu hunain i adlewyrchu'r gwahanol bolisiau sy'n berthnasol o fewn ysgolion.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa bresennol o ran derbyn polisiau ar draws y Cyngor.

NI CHYNYGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor. 'Roedd yr adroddiad yn dilyn y fformat a'r arweiniad a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n darparu cyfres o benawdau ar gyfer adrodd ar berfformiad iechyd a diogelwch a ddylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad mewn perthynas â rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys data ar yr holl ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn 2018/19 ac roeddent wedi eu categorio fel mân ddigwyddiadau, digwyddiadau difrifol a digwyddiadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a

Digwyddiadau Peryglus) sy'n ddigwyddiadau sy'n cwrdd â meini prawf penodol y mae'n rhaid adrodd arnynt i'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch. Mae'r tabl ar dudalen 7 yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r digwyddiadau yn ôl eu math ac fe'u torrwyd i lawr ymhellach yn is-gategoriâu ar gyfer rhai digwyddiadau. Mae'r fformat tabl yn caniatáu cymharu â'r data ar gyfer y tair blynedd flaenorol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y data'n dangos ei fod yn edrych mai trais ac ymddygiad ymosodol a chodymau yw'r mathau mwyaf arwyddocaol o ddigwyddiadau. O ran trais ac ymddygiad ymosodol (cyfanswm o 287 o gymharu â 237 yn 2017/18), y nifer uchaf o ddigwyddiadau yw'r rheini sy'n cynnwys ymddygiad heriol lle efallai nad oes bwriad i niweidio (106). Mae camdriniaeth eiriol gan aelodau o'r cyhoedd hefyd yn nifer sylweddol (103 o ddigwyddiadau o gymharu â 53 yn 2017/18). Er mai galwadau ffôn yw'r mwyafrif o'r rhain mae rhai yn cynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb. Gellir priodoli'r cynnydd i gyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau cymdeithasol, yr hinsawdd economaidd a'r galw cynyddol am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae digwyddiadau codwm yn ymwneud yn bennaf â disgyblion ysgol a chleientiaid mewn cartrefi, ac nid oes a wnelo'r mwyafrif ohonynt â goruchwyliaeth neu broblemau gyda'r amgylchedd. Mae'r categori "Math arall o Ddamwain" hefyd yn dangos nifer uchel o ddigwyddiadau (135) ac mae'n cynnwys adroddiadau am ymwybyddiaeth o sefyllfaoedd fel "celcio" mewn tai Cyngor; materion diogelu posib a gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau allanol a allai effeithio ar ddyletswydd gofal y Cyngor. Adolygir hyn i sefydlu a ellir cofnodi'r digwyddiadau hyn fel digwyddiadau 'trwch blewyn' neu a oes angen dull ychwanegol o gofnodi.

Wrth drafod yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion a ganlyn -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar yr hyn sy'n penderfynu a oes angen rhoi gwybod am ddigwyddiad fel un RIDDOR, a ph'un a yw pob digwyddiad o'r fath yn ddifrifol iawn ac a yw'r Cyngor yn meincodi ei berfformiad yn hyn o beth yn erbyn awdurdodau eraill. Eglurodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod yna feini prawf penodol sy'n penderfynu a oes raid adrodd am ddigwyddiad fel un RIDDOR a rhoddodd enghreifftiau o ddigwyddiadau sy'n cwrdd â diffiniad RIDDOR e.e. anafiadau i weithwyr sy'n golygu na allant weithio am dros 7 niwrnod. Weithiau, bydd digwyddiad yn ddifrifol ond nid yn un y byddai'n rhaid rhoi gwybod amdano dan y rheoliadau RIDDOR ond byddai'n destun ymchwiliad mewnol manylach. Mae ymchwilio i ddigwyddiadau RIDDOR yn un o dargedau perfformiad y Gwasanaeth. O dan RIDDOR, rhaid rhoi gwybod hefyd am anafiadau i weithwyr nad ydynt yn weithwyr y Cyngor ond lle bu'n rhaid eu cludo'n uniongyrchol i'r ysbyty (boed yr anafiadau'n ddifrifol ai peidio). Cadarnhaodd y Swyddog nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn ymgymryd ag unrhyw feincodi yn erbyn awdurdodau eraill o ran iechyd a diogelwch ond yn y gorffennol pan oedd cymariaethau'n cael eu gwneud, roedd ei berfformiad mewn perthynas ag adrodd ar ddigwyddiadau RIDDOR (a ddefnyddir fel meincnod oherwydd bod ei safonau'n berthnasol i bob Cyngor) yn debyg yn gyffredinol i berfformiad awdurdodau eraill Gogledd Cymru. Nid yw Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Gogledd Cymru wedi cyfarfod ers rhai blynyddoedd er y bu cais iddo gael ei ailsefydlu.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch personol Cynghorwyr yn enwedig mewn hinsawdd lle gallent fod mewn mwy o berygl oherwydd natur eu dyletswyddau a'r rhyngweithio sydd ganddynt gyda'r cyhoedd. Dywedodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod y Cyngor yn gyfrifol am ddiogelwch Cynghorwyr pan fyddant yn cyflawni dyletswyddau ar ei ran. Dywedodd y Swyddog y gofynnwyd iddo gyfrannu at hyfforddiant i gynghorwyr ar ddiogelwch personol ac i'r perwyl hwnnw ei fod yn gweithio ar gyflwyniad. Gofynnodd y Pwyllgor am i'r hyfforddiant gael ei ddarparu cyn gynted ag y bod modd.
- Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y cynnydd mewn digwyddiadau treisgar a thynnodd sylw at 8 digwyddiad lle cafodd gweithiwr ei daro, a nododd hefyd y cynnydd yn nifer y

digwyddiadau treisgar lle'r oedd aelod o'r cyhoedd wedi cam-drin aelod o staff yn eiriol a oedd bron wedi dyblu o 53 i 103. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr Heddlu'n cael gwybod am ddigwyddiadau treisgar, ac er budd diogelu staff, a ddylai fod rhybudd clir ym mhrif dderbynfaf'r Cyngor yn dweud y bydd yr Heddlu'n cael gwybod am ymddygiad treisgar yn erbyn staff ac a yw'r Awdurdod yn fodlon bod staff yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt pan fyddant wedi dioddef trais neu gamdriniaeth wrth gyflawni eu gwaith. Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe gellid dadansoddi'r data ymhellach, trwy ddangos nifer y digwyddiadau ym mhob gwasanaeth, gan y gallai tenantiaid tai, er enghraifft, fod yn torri eu tenantiaeth wrth gam-drin staff yn eiriol a gellir cymryd camau cadarnhaol yn erbyn y fath ymddygiad. Eglurodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod mwyafrif y digwyddiadau treisgar yn digwydd yn amgylchedd yr ysgolion, sef disgybl yn erbyn disgybl o bosib, ond nad oedd yn ymwybodol bod yr Heddlu'n cael gwybod amdanynt. Er bod mwyafrif yr ymosodiadau corfforol yn ymwneud ag ymddygiad heriol lle mae problemau galluedd meddyliol a lle na ellid sefydlu bod bwriad i niweidio, mae nifer yr ymosodiadau corfforol cyffredinol lle na nodwyd unrhyw faterion galluedd meddyliol hefyd wedi cynyddu. Dywedodd y Swyddog, er nad oedd yn ymwybodol o unrhyw erlyniadau a ddeilliodd ohonynt, fod 2 ddigwyddiad yr oedd yr Heddlu wedi rhoi sylw iddynt. Mae arwyddion yn Cyswllt Môn (derbynfaf gyhoeddus y Cyngor) sy'n tynnu sylw at y ffaith na fydd trais ac ymddygiad ymosodol yn cael eu goddef; mae cynnwys cyfeiriad ynddynt at yr Heddlu yn fater i'w drafod. Ar gyfer staff sydd wedi dioddef camdriniaeth yn ystod eu gwaith, mae cefnogaeth ac ymwybyddiaeth ar lefel Rheolwyr Llinell ac, yn ogystal, gwnaed diwygiadau i'r Polisi Rheoli Cyswllt - Camau Derbyniol gan Gwsmeriaid a'r Polisi a'r Gweithdrefn Marcio'r Perygl o Drais.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod gan staff yr hawl i ddod â galwad ffôn i ben os yw'r galwr yn eu cam-drin ar lafar ac i roi gwybod am alwadau o'r fath i'r Pennaeth Gwasanaeth. Os bydd hyn yn digwydd dro ar ôl tro, yna mae'r Polisi Marcio Perygl o Drais yn darparu ar gyfer nodi'r galwr fel un sy'n ymosodol / bygythiol.

Penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac yn argymhell bod yr adroddiad yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod a bod y Cynllun Datblygu yn cael ei weithredu.

NI WNAED UNRHYW GYNNIG YCHWANEGOL

9. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaethau, darparu sicrwydd ac adolygiadau a gwblhawyd.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fel a ganlyn -

- Bod tri adroddiad Archwilio Mewnol wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod a bod dau ohonynt wedi arwain at ddyfarnu sgôr Sicrwydd Sylweddol - sef Archwiliadau Ardystio Grant mewn perthynas â Rhentu Doeth Cymru a'r Grant Datblygu Disgyblion. Cynhyrnodd y trydydd adolygiad, a oedd yn ymwneud â Diogelu Corfforaethol, sgôr Sicrwydd Rhesymol ac roedd yn dwyn sylw at 4 mater / risg fawr y mae angen mynd i'r afael â hwy. Dynodwyd y materion / risgiau yn rhai mawr oherwydd eu heffaith bosib yn y maes hwn. Fodd bynnag, ar y cyfan, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Cyngor wedi gweithredu nifer o reolaethau effeithiol i reoli'r risg y bydd camgymeriad diogelu difrifol yn achosi neu'n cyfrannu at niwed i'r rheini y mae ganddo gyfrifoldeb i'w hamddiffyn ac, o ganlyniad, roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn.

- Bod tri adroddiad sydd â sgôr Sicrwydd Cyfyngedig wedi'u hamserlennu ar gyfer adolygiad dilyn-i-fyny fel y manylir ym mharagraff 15 yr adroddiad. Cynhelir dau adolygiad dilyn-i-fyny ar hyn o bryd - Casglu Incwm Ysgolion Cynradd (adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf) ac Amrywiol Ddyledwyr (ail adolygiad dilyn-i-fyny). Gohiriwyd yr adolygiad dilyn-i-fyny- ar Fynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau hyd nes y cwblhawyd ailstrwythuro'r swyddogaeth Cyflogres / Taliadau.
- Bod Gwasanaeth TG y Cyngor wedi cadarnhau bod y diweddariad i'r system gorfforaethol o'r enw "4 action" ar gyfer tracio camau gweithredu y cyfeiriwyd ato yn adroddiadau chwarterol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y misoedd diwethaf bellach wedi'i gyflunio ac wrthi'n cael ei brofi. Mae'r broses hon wedi amlygu rhai problemau y mae'r cyflenwr yn gweithio i'w datrys ar hyn o bryd. Aethpwyd ar ôl y materion hyn a gobeithir y gellir symud ymlaen yn awr.
- Ychydig o newid sydd wedi bod o ran y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019/20 yn y chwe wythnos ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor. Er bod y tymor gwyliau wedi llesteirio cynnydd, mae nifer o adroddiadau drafft wedi'u cyhoeddi sy'n aros am ymateb y rheolwyr ac mae'r gwaith wedi parhau ar sawl archwiliad fel y manylir ym mharagraff 19 o'r adroddiad yn ogystal â darn o waith ymgynghori ar fenthyciadau ceir staff.

Wrth ystyried yr adroddiad gofynnodd y Pwyllgor, o gofio effaith bosib y 4 mater / risg a nodwyd mewn maes mor sensitif â diogelu, a ddylai'r adolygiad fod wedi arwain at Sicrwydd Cyfyngedig gan sicrhau felly y byddai'n cael ei ddilyn-i-fyny'n ffurfiol ac yr adroddir ar y canlyniad i'r Pwyllgor hwn.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Uwch Reolwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu yn ogystal â'r Gwasanaeth Addysg ac ysgolion a bod y darlun gwirioneddol yn fwy cadarnhaol nag y mae'r sefyllfa fonitro gorfforaethol yn ei adlewyrchu. Yn ymarferol, cynhelir gwiriadau ac adnewyddiadau GDG ac mae'r problemau a nodwyd yn ymwneud â materion cadw tŷ arferol sy'n ymwneud â GDG e.e. diffyg cofnodion ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd diogelu strategol a diffyg system integredig i gofnodi a monitro cydymffurfiaeth ac adnewyddiadau GDG gyda dibyniaeth yn cael ei rhoi yn lle hynny ar brosesau maniwel yn y gwasanaethau a oedd yn achosi rhai problemau, yn enwedig i staff ysgolion. Roedd gwaith yn mynd rhagddo yn ystod yr archwiliad ac mae'r materion a amlygwyd wedi'u hystyried ac mae'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn dweud y bydd y Cyngor yn caffael system GDG cyn bo hir lle gellid cyflwyno nifer uchel o geisiadau GDG gyda'i gilydd ar un tro. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er na fydd yr adolygiad yn cael ei ddilyn-i-fyny yn yr un modd ag ar gyfer adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig, bydd yn ofynnol i Swyddogion ddiweddarau'r system dracio gorfforaethol i dracio'r cynnydd a wnaed gyda rheoli'r risgiau a nodwyd ac ni fydd y rhain yn cael eu cau i lawr hyd nes bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn fodlon eu bod wedi cael sylw llawn neu eu lliniaru'n llwyr. Pe bai unrhyw un o'r Materion / Risgiau yn parhau i fod heb gael sylw, yna fel risgiau mawr neu ambr byddant yn dod i sylw'r Pwyllgor fel rhan o'r adroddiadau bob chwe mis ar Faterion / Risgiau Archwilio Mewnol sydd angen sylw. Mae Diogelu Corfforaethol hefyd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel elfen o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r cynnydd diweddaraf gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, rhoi sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd a'i berfformiad a'i effeithiolrwydd o ran gyrru gwelliant.

NI CHYNGIWIYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL

10. ARGYMHELLION GAN Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL SYDD ANGEN SYLW

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar statws a manylion y risgiau sy'n weddill y mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'u hamlygu. Manylwyd ar y rhain yn Atodiad A i'r adroddiad ac roeddent hefyd yn cynnwys diweddariad ar gynnydd gan y Rheolwyr sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r problemau / risgiau a gofnodwyd.

Adroddodd y Prif Archwilydd fel a ganlyn –

- Nad oes unrhyw Faterion / Risgiau Uchel neu Goch yn weddill, ac mae perfformiad wrth fynd i'r afael â materion / risgiau sydd â sgôr Ambr wedi gwella ers y diweddariad blaenorol ym mis Gorffennaf gyda'r ganran weithredu gyffredinol ar gyfer materion / risgiau Uchel / Coch / Ambr yn 92%.
- Bu gwelliant bach hefyd mewn perfformiad ar gyfer y risgiau Canolig / Melyn gyda gostyngiad cyffredinol o 5 yn nifer y gweithredoedd sy'n weddill, a'r rheini wedi'u gwasgaru ar draws gwasanaethau.
- Ar 11 Awst, 2019, y gyfradd weithredu oedd 100% ar gyfer materion / risgiau Uchel / Coch; 83% ar gyfer materion / risgiau Ambr; 97% ar gyfer problemau / risgiau Canolig; 80% ar gyfer risgiau / materion Melyn.
- Bod 2 adolygiad dilyn-i-fyny, sef ar Amrywiol Ddyledwyr a Chasglu Incwm Ysgolion eisoes wedi cychwyn ac mae'r ddau adolygiad hyn yn cyfrif am 6 allan o'r 9 o faterion / risgiau canolig sy'n weddill.
- Bod cadarnhad wedi ei dderbyn bod y camau gofynnol o dan eitem 9 yn Atodiad A - Cydymffurfriad PCI DSS mewn perthynas â'r Gwasanaeth Trawsnewid bellach wedi'u cwblhau.
- Bod gweithredu'r system tracio gweithredu corfforaethol ar ei newydd wedd yn rhoi cyfle i adolygu fframwaith adrodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â'r dull archwilio newydd a'i bod yn ddefnyddiol, yn gryno, yn berthnasol ac yn amserol. Gan y bydd yn haws cyflunio paramedrau adrodd y system newydd o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na gwneud newidiadau unwaith y bydd yn weithredol, ystyriwyd ei bod yn ddoeth ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch ei ofynion adrodd cyn yr uwchraddio fel y gellir cynnwys y rhain yn y system. Rhagwelir y gellir cyflunio'r system newydd i adrodd yn haws ar feysydd fel y rhestrir nhw ym mharagraff 14 yr adroddiad – sef meysydd sydd angen ymyrraeth faniwal sylweddol ar hyn o bryd.

Er y byddai'n gymorth pe gellid ymgorffori'r holl elfennau ym mharagraff 14, nododd y Pwyllgor wrth ystyried yr adroddiad a'r math o wybodaeth yr hoffai ei chael o dan y system dracio newydd, y byddai gwahanu'r risgiau coch ac ambr yn arbennig o ddefnyddiol.

Penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn –

- **Nodi'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r risgiau Archwilio Mewnol sy'n weddill, a**
- **Cefnogi cynnwys yr elfennau a nodir ym mharagraff 14 o'r adroddiad fel rhan o'r trefniadau adrodd i'r Pwyllgor yn y dyfodol o dan y system dracio '4action' newydd.**

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL

11. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diweddaru.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er nad oes disgwyl i'r Siarter Archwilio gael ei hadolygu'n llawn tan Ebrill, 2020, fod adolygiad a gynhaliwyd i sicrhau ei phriodoldeb parhaus wedi nodi'r ddau fân-newid a ganlyn -

- Diwygio'r holl gyfeiriadau at y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn y ddogfen i adlewyrchu ailddynodi'r swydd yn Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.
- Ychwanegu Paragraff 30 i adlewyrchu Datganiad CIPFA ar y Pennaeth Archwilio Mewnol (2019).

Penderfynwyd cymeradwyo'r newidiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol.

NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAM GWEITHREDU GWEITHREDU YCHWANEGOL.

12. BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor i'w hadolygu a **chafodd ei chymeradwyo gyda'r diwygiadau a ganlyn -**

- Eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019 - Cyflwyno Gwirio yn Seiliedig ar Risg – Budd-daliadau Tai / Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- Ailamserrlennu Adroddiad Diogelwch TGCh Blynyddol 2018/19 o gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi i'w gyfarfod ym mis Rhagfyr, 2019.

NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL

13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

14. COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol ym mis Mai, 2019 ac yn ystyried nad oedd nifer o'r risgiau'n berthnasol mwyach ac y gellid cyfuno rhai risgiau o gofio'r argymhellion a wnaed yn ystod Gwiriad Iechyd Rheolaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Zurich Municipal bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys gormod o risgiau. Canlyniad net yr adolygiad gan yr UDA oedd cau 19 o risgiau - roedd y rhain yn cynnwys risgiau lle gwnaed cynnydd sylweddol i liniaru'r risg, risgiau o natur debyg sydd wedi'u cyfuno, a risgiau nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn risg oherwydd bod amgylchiadau wedi newid. Mae manylion y risgiau unigol yr effeithir arnynt felly yn yr adroddiad. Mae'r UDA wedi nodi'r prif risgiau sy'n weddill (coch) i'r Cyngor, sef YM28, YM40 ac YM41. Yn ogystal, mae'r UDA wedi cytuno y bydd yn adolygu nifer fach o risgiau bob mis yn hytrach nag adolygu'r gofrestr risg

gorfforaethol gyfan bob chwarter.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chododd y materion a ganlyn -

- Holodd y Pwyllgor sut y byddai'r UDA yn penderfynu pa risgiau y byddai'n eu hadolygu bob mis.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod risgiau wedi'u blaenoriaethu yn ôl eu sgôr risg gynhenid a gweddilliol gan roi blaenoriaeth i risgiau Cynhenid Coch / Gweddilliol Coch ac yna risgiau Coch Cynhenid / Ambr Gweddilliol; risgiau Coch Cynhenid / Melyn Gweddilliol a risgiau Coch Cynhenid / Gwyrdd Gweddilliol. Er bod camau lliniaru yn allweddol o ran lleihau risgiau gweddilliol, ystyrir bod angen monitro risgiau cynhenid Coch yn rheolaidd.

- Holodd y Pwyllgor a yw'r Cyngor yn hapus i oddef 3 risg fawr sy'n parhau i fod yn Risgiau Coch fel rhai gweddilliol.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yna adegau pan fydd risg yn aros yn goch ac nad yw'n anarferol i gofrestr risg gynnwys risgiau coch gweddilliol a coch cynhenid. Mae hyn yn adlewyrchu archwaeth risg y Cyngor fel y nodir yn y matrices risg ond nid yw'n golygu nad yw'r risgiau'n cael eu rheoli.

- Trafododd y Pwyllgor y defnydd o'r term "trychinebus" i ddisgrifio'r lefel uchaf o effaith pe bai risg yn cael ei gwireddu gan ofyn a oedd yn gorddweud yr effeithiau posib; holodd y Pwyllgor a fyddai'n synhwyrol canolbwyntio ar nodi mesurau i leihau unrhyw risgiau gweddilliol i lefel sy'n is na'r lefel drychinebus.

Esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad yw'r defnydd o'r term trychinebus yn anghyffredin; eglurodd, gyda'r holl risgiau, fod yr UDA wedi penderfynu bod faint o adnoddau y mae'n barod eu rhoi / gallu eu rhoi i reoli risgiau ar y lefel a adlewyrchir yn y matrices risg, sef y lefel y mae'n barod i'w goddef.

- Holodd y Pwyllgor pa bryd yr oedd y Cyngor yn bwriadu cyflwyno mesurau i liniaru Brexit.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod gan y Cyngor Swyddog Brexit dynodedig ac y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ledled Gogledd Cymru i ystyried materion yn ymwneud â Brexit a sut mae'r rhain yn cael eu lliniaru ledled y rhanbarth yn awr ac i'r dyfodol. Mae'r Swyddog Brexit hefyd yn cynnal cofrestr risg Brexit ar wahân i lawr i lefel gwasanaethau unigol ac fe gyflwynir adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ac i Lywodraeth y DU.

Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn sicrhau bod y risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor yn cael eu cydnabod a'u rheoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAM GWEITHREDU PELLACH.

**Y Cyngorydd Peter Rogers
Cadeirydd**



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwen Morgan
Cynghorydd Llinos Medi Huws
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni

Cyfeiriad: IH/CS 18-19

Dyddiad: 5 Tachwedd 2019

Annwyl Annwen and Llinos

Llythyr Archwilio Blynnyddol – Cyngor Sir Ynys Môn 2018-19

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau ei fod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 12 Medi 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamedod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Adroddwyd y materion allweddol a godwyd o'r archwiliad hwn i'r Pwyllgor Archwilio fel y bo'n briodol.

O 2020-21 ymlaen, bydd angen i ddyddiadau'r Pwyllgor gael ei ddwyn ymlaen i ymgorffori a'r dyddiadau statudol cynharach lle bydd angen i'r danganiadau ariannol drafft gael eu paratoi a'u llofnodi gan y swyddog cyllid cyfrifol (swyddog S151) erbyn 31 Mai 2021, ac i'r datganiadau ariannol gael eu gymeradwyo ac eu cyhoeddi gan y Cyngor erbyn 31 Gorffennaf 2021. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion y Cyngor dros yr hydref i adnabod a gweithredu gwelliannau pellach i'r paratodau ac archwiliad o'r datganiadau ariannol 2019-20, gyda'r nod o gyflawni'r terfynau amser adolygedig erbyn 2020-21.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae ystyriaeth yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau,

er yn mis Gorffennaf 2019 nodwyd yr Archwilydd yn fy Adroddiad Gwelliant Blynyddol¹ rai ardaloedd lle gellid gwneud gwelliannau.

Er gwaethaf y casgliad uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno tynnu sylw ei fod ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor, ac y mae'n disgwyl adrodd i'r Cyngor arno erbyn mis Rhagfyr 2019. Bydd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi unrhyw ardaloedd penodol lle gallai gwelliannau gael eu gwneud.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau ar 12 Medi 2019.

Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ar drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu ardystio bod yr archwiliad yn gyflawn pan gyhoeddodd ei farn archwilio.

Mae'r gwaith hyd yma ar ardystiadau hawliadau a ffurflenni grant ar y gweill.

Bydd adroddiad manylach ar waith ardystio grantiau'r Archwilydd Cyffredinol yn dilyn yn gynnar yn 2020 unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi ei gwblhau.

Ffi archwilio ariannol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yng Nghynllun Archwilio.

Yn gywir



Ian Howse

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

¹ <https://archwilio.cymru/publication/isle-anglesey-county-council-annual-improvement-report-2018-19>

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Dyddiad:	3 Rhagfyr 2019
Pwnc:	Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber 2019
Pennaeth Gwasanaeth	Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid (01248) 752502 CarysEdwards@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Lee Evans, Rheolwr y Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad (01248) 752526 LeeEvans@ynysmon.gov.uk
Natur a Rheswm dros Adrodd:	
Mae'r adroddiad yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro trefniadau'r Cyngor wrth liniaru Bygythiadau Seiber ac yn rhoi manylion am weithgareddau monitro a gweithgareddau sicrwydd eraill sy'n ymwneud â'r maes hwn.	

1. Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Bygythiadau Seiber sy'n wynebu'r Cyngor a sut mae'r Adain Technoleg Gwybodaeth yn gweithredu i'w lliniaru.

2. Argymhelliad

Nodi'r sicrwydd a ddarperir yn yr adroddiad.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adain TG IT Division



Adroddiad Blynyddol

DIOGELWCH SEIBER

2019

SWYDDOGOL

Desg Gymorth TG / IT Service Desk

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
(01248) 752525

DesgGymorthTG@ynysmon.gov.uk ITServiceDesk@anglesey.gov.uk
<http://monitor.ynysmon.gov.uk/tgch> <http://monitor.anglesey.gov.uk/ict>



Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber 2019

1. CEFNDIR

Mae adroddiadau am ymosodiadau seiber wedi dod yn gyffredin yn y newyddion ac mae ymosodiadau proffil uchel yn digwydd bob wythnos a hyd yn oed yn bob dydd. Yr enghraifft fwyaf adnabyddus oedd yr ymosodiad gan y feddalwedd wystlo o'r enw 'WannaCry' ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Ar y gorau, mae ymosodiadau o'r fath yn erydu ymddiriedaeth gwasanaethau a chwsmeriaid ac yn achosi difrod i enw da, ac ar y gwaethaf gallant barlysu sefydliad a'i rwystro rhag darparu gwasanaethau hanfodol.

Mae ymosodiadau seiber yn amrywio o ran eu dull a'u cymhlethdod ond maent yn gyson yn eu hamcan, sef creu anhrefn, difrodi neu ddwyn.

Diogelwch Seiber yw'r arfer o amddiffyn systemau cyfrifiadurol rhag bygythiadau seiber a diogelu cyfanrwydd, cyfrinachedd ac argaeledd y wybodaeth a gedwir gan y sefydliad.

Fel yn achos unrhyw sefydliad sydd wedi ei gysylltu â'r Rhyngwrwd, mae rhwydwaith y Cyngor o dan ymosodiad cyson 24 awr ac mae swmp a sylwedd y data personol sensitif a gedwir gan y Cyngor yn golygu bod raid lleihau'r risg o ymosodiadau llwyddiannus gymaint ag sy'n rhesymol bosib. Mae'r perygl o ymosodiadau seiber yn cael ei gydnabod gan y Cyngor a'i gofnodi yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol sy'n cael ei monitro gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA).

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r Bygythiadau Seiber y mae'r Cyngor yn eu hwynebu a rhai o'r mesurau lliniaru y mae'r Cyngor wedi ei sefydlu. Un o egwyddorion allweddol diogelwch seiber effeithiol yw "diogelwch trwy guddio", felly dim ond trosolwg lefel uchel y bydd yr adroddiad yn ei roi ac ni fydd yn manylu ar y technolegau neu'r cynhyrchion a ddefnyddir.

2. PWY YW'R YMOSODWYR POSIB?


Fel sy'n wir yn achos pob sefydliad, mae ymgeision i ymosod yn dod o wahanol ffynonellau ac yn amrywio o ran dull a chymhelliant. Maent yn disgyn i'r categorïau eang isod;

Troseddwyr




Wedi'u hysgogi gan elw ariannol yn unig. Mae seiberdroseddu yn caniatáu i droseddwyr weithredu'n rhyngwladol ac yn ddiennw, ac mae'n ffordd risg isel o fedru dwyn o gymharu â throseddau traddodiadol, a gallai'r enillion fod yn llawer uwch. Mae'r gost isel o'u sefydlu yn golygu y gall troseddwyr lansio ymosodiadau ar filoedd o ddiodefwyr posib a dim ond nifer fach o lwyddiannau sydd eu hangen arnyh nhw i sicrhau enillion ariannol mawr.

Hacwyr ymgyrchu a Cheiswyr Bri




Unigolion neu grwpiau o ymosodwyr sy'n cyflawni eu gweithgareddau maleisus i hyrwyddo agenda o'u dewis. Gall ymosodiad o'r fath gynnwys amharu ar argaeledd system neu "hagru" gwefannau corfforaethol a chyfryngau cymdeithasol gyda neges a ddewiswyd gan yr ymosodwyr – gallai'r neges fod yn bwnc gwleidyddol, cred grefyddol neu ideoleg gymdeithasol neu hyd yn oed dim ond i ddangos eu gallu technegol i'w cymheiriaid.

Gwladwriaethau Tramor



Grwpiau a noddir gan wladwriaethau. Cyngorau Lleol yw'r Porth i'r llywodraeth ganolog a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Mae gan ymosodwyr a noddir gan wladwriaethau amcanion penodol sy'n cydfynd â buddiannau gwleidyddol, masnachol neu filwrol y gwledydd y maent yn hanu ohonynt. Mae'r mathau hyn o ymosodiadau yn hynod soffistigedig ac yn anodd eu darganfod. Mae'r Ganolfan Diogelwch Seiber Genedlaethol wedi cyhoeddi cyngor sy'n nodi bod y risg o ymosodiad gan y grwpiau hyn yn real, yn enwedig ar adegau pan gynhelir digwyddiadau cenedlaethol mawr fel etholiadau.

Bygythiadau mewnol



Mae bygythiad o'r fath i ddiogelwch neu ddata sefydliad yn dod o'r tu mewn iddo. Daw'r math hwn o fygythiad gan weithwyr neu gynweithwyr, ond gall hefyd ddeillio o drydydd partion, gan gynnwys contractwyr, gweithwyr dros dro, gweithwyr parhaol neu gwsmeriaid. Dywedir yn eang bod 50% o'r achosion gwaethaf o danseilio diogelwch gwybodaeth yn digwydd trwy gamgymeriad anfwriadol gan unigolion, megis agor e-bost maleisus.

3. BETH YW'R BYGYTHIADAU SEIBER?

Maleiswedd

Ymadrodd ymbarél yw maleiswedd neu "feddalwedd faleisus" sy'n disgrifio unrhyw raglen neu gôd maleisus sy'n niweidiol i systemau.

Mae Maleiswedd yn ceisio difrodi neu anablu cyfrifiaduron, gweinyddwyr, rhwydweithiau a dyfeisiau cyfrifiadurol eraill.

Mae enghreifftiau yn cynnwys Firysau, Ceffylau Pren Troea, Meddalwedd Wystlo a Chofnodwyr Bysellau;



Firysau

Y math mwyaf adnabyddus o Faleiswedd. Mae firysau yn bennaf yn ceisio amharu ar system neu ddiaristrio data. Maent yn ymledu o gyfrifiadur i gyfrifiadur trwy rwydweithiau, e-bost a chyfryngau symudol. Gall haint firws ddigwydd trwy i'r dioddefwr redeg ffeil faleisus neu dim ond trwy roi cofbin i mewn i ddyfais.

Meddalwedd Wystlo

Math o feddalwedd yw hon sy'n amgryptio ffeiliau'r dioddefwr. Ar ôl atal mynediad i ddata'r dioddefwr, mae'r ymosodwr wedyn yn mynnu bod y dioddefwr yn talu priddwerth cyn y bydd yr ymosodwr yn adfer mynediad i'r data.

Mae'r feddalwedd yn dangos cyfarwyddiadau ar sut y gall y dioddefwr dalu'r priddwerth ac yn aml maent yn cynnwys rhif cymorth lle rhoddir "help" i gyflawni'r trafodiad. Gall yr anhrefn a achosir ddod â sefydliad i stop stond a gall cost y priddwerth fod cymaint â degau o filoedd o bunnau heb fawr o siawns mewn gwirionedd i'r troseddwr gael eu dwyn o flaen eu gwell.

Cofnodwyr Bysellau

Math o feddalwedd yw hon sy'n cael ei gosod ar gyfrifiadur dioddefwr heb yn wybod iddynt ac sy'n cofnodi trawladau bysellau dros gyfnod o fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei throsglwyddo yn ôl i'r ymosodwr dros y Rhyngwrld a byddant yn hidlo'r wybodaeth i chwilio am fanylion mewngofnodi, cyfrineiriau a gwybodaeth am gardiau credyd a ddefnyddir wedyn i hwyluso troseddau ariannol.

Ceffylau Pren Troea

Mae'n edrych fel meddalwedd ddefnyddiol sydd ddim yn faleisus er mwyn iddi gael ei gosod yn ddiniwed gan ddiodyddwyr ar eu cyfrifiaduron. Bydd yn lawrlwytho mathau eraill o faleiswedd heb yn wybod megis meddalwedd cofnodi bysellau neu feddalwedd wystlo a heb unrhyw arwyddion amlwg a fyddai'n codi amheuaeth.



Lliniaru

Meddalwedd Gwrth-Faleiswedd

Mae holl gyfrifiaduron a gweinyddwyr y Cyngor yn gweithredu meddalwedd gwrth-faleiswedd sy'n sganio am nodweddion codau maleisus hysbys ac sy'n rhwystro mynediad os darganfyddir rhai.

Mae yna sawl ffynhonnell bosib o ymosodiad trwy feddalwedd faleisus ac mae'r rhain yn cynnwys; atodiadau e-bost, gwefannau maleisus a chyfryngau symudol.

Hidlo E-byst

Mae'r holl atodiadau e-bost a dderbynnir gan y Cyngor yn cael eu dadansoddi i ddarganfod a ydynt yn faleisus. Mae unrhyw fathau o ffeiliau y gwyddys y gallant fod yn beryglus naill ai'n cael eu blocio neu eu glanhau'n awtomatig fel bod unrhyw "gynnwys gweithredol" yn cael ei ddileu.

Mae'r Cyngor hefyd wedi tanysgrifio i wasanaeth sy'n sicrhau bod e-byst o ffynonellau maleisus hysbys yn cael eu blocio'n awtomatig.



Hidlo Cynnwys y We

Mae'r Cyngor wedi tanysgrifio i Wasanaeth Datrys Enw Parth Amddiffynnol y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).

Yn syml, mae hyn yn golygu bod unrhyw gyfeiriad gwe y mae cyfrifiaduron y Cyngor yn ymweld ag ef yn cael ei wirio yn erbyn rhestr o wefannau maleisus hysbys a rhwystrir mynediad os bydd angen.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn defnyddio gwasanaeth hidlo cynnwys y we i rwystro mynediad i wefannau annymunol fel

Gemau, Hapchwarae, Pornograffi a gweithgaredd Anghyfreithlon.

Cyfryngau Symudol

Yn hanesyddol bu cyfryngau symudol fel Cryno Ddisgiau a Chofbinnau yn ffordd gyfleus a rhad o drosglwyddo data. Fodd bynnag, gellir eu defnyddio hefyd i ymledu maleiswedd o un rhwydwaith i'r llall ac mae'n hawdd eu colli hefyd, gan arwain at dorri rheolau diogelwch data. Mewn ymateb i'r risg hon mae'r Cyngor wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio Cofbinnau ar gyfrifiaduron y Cyngor ac eithrio ar gyfer nifer fach o bobl lle mae achos busnes digon cryf dros wneud hynny.

Gwendidau mewn Meddalwedd

Diffygion neu fylchau mewn côd meddalwedd yw'r rhain ac os yw ymosodwr yn gwneud yn fawr ohonynt gallant beri i'r feddalwedd ymddwyn mewn modd annymunol ac annisgwyl, er enghraifft caniatáu i ymosodwr gael mynediad i'r system o bell a heb ganiatâd.

Os yw'r feddalwedd yn gyfredol ac yn dal i gael ei chefnogi gan y cyflenwr, mae pecynnau côd sydd wedi'u cywiro, sef "diweddariadau" neu "drwsiadau" ar gael i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn ac i gau'r bwlch diogelwch posib. Yn dibynnu ar y feddalwedd, gallai fod yn broses faniwal i ddiweddarau pob dyfais neu efallai y bydd modd rheoli'r broses yn ganolog.

Lliniaru

Mabwysiadu Windows 10 yn fuan

Er mwyn manteisio ar ei nodweddion diogelwch gwell, fe wnaeth y Cyngor benderfyniad strategol sawl blwyddyn yn ôl i uwchraddio pob cyfrifiadur personol neu liniadur i Windows 10. Amlygodd y prosiect hwn fod yna lawer iawn o feddalwedd gwaddol nad oedd bellach yn cael ei diweddarau gan y cyflenwr ac roedd hynny'n risg bosib i'r dyfodol. Penderfynwyd cael gwared ar y feddalwedd honno a lleihau faint o feddalwedd yr oedd angen ei diweddarau yn gyffredinol.

Rhithioli Cymwysiadau

Yn draddodiadol, gosodwyd meddalwedd cymwysiadau ar bob cyfrifiadur neu liniadur ac 'roedd yn faich sylweddol i reoli diweddariadau diogelwch meddalwedd. Wrth i Windows 10 gael ei gyflwyno, penderfynwyd symud i ffwrdd o'r model hwn i "rithioli cymwysiadau". Yn syml, mae hyn yn golygu bod prif gopi ar gyfer yr holl gymwysiadau sy'n rhedeg ar weinydd canolog. Mae pob un o'r cyfrifiaduron neu'r gliaduron yn cyrchu'r copi canolog hwn o'r feddalwedd sy'n golygu mai dim ond un copi y mae'n rhaid ei gadw'n gyfredol a'i reoli.

Cynnal Prawf ar Wendidau

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet a'r diwydiant, mae'r Cyngor yn trefnu i "hacwyr moesegol" trydydd parti gynnal prawf i asesu pa mor fregus yw rhwydwaith y Cyngor. Mae'r broses hon yn nodi unrhyw feddalwedd sydd wedi dyddio, sydd heb ei thrwsio ac sy'n peri risg. Yna mae'r feddalwedd a amlygwyd naill ai'n cael ei diweddarau neu fe roddir y gorau i'w defnyddio.

Bygythiadau Mewnol

Yn ôl McAfee, mae 43% o ddigwyddiadau seiber yn cael eu hachosi gan Fygythiadau Mewnol - gellir categorio'r rhain fel gweithredoedd damweiniol gan staff, gweithredoedd maleisus gan staff neu weithredoedd gan contractwyr.

Mae llawer o'r bygythiadau a drafodwyd yn yr adroddiad hwn wedi bod yn dechnegol eu naws, ond mae llwyddiant yr ymosodiadau hynny fel arfer yn dibynnu ar fod unigolyn yn clicio dolen faleisus, yn agor atodiad maleisus, yn datgelu cyfrinair neu ryw weithred arall.

Lliniaru

Hyfforddiant Diogelwch Seiber

Er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Bygythiadau Seiber, chwaraeodd y Cyngor ran flaenllaw gyda chaffael pecyn E-Ddysgu dwyieithog, Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth Seiber.

Defnyddiwyd y modiwl Ymwybyddiaeth Seiber ar blatfform e-Ddysgu'r Cyngor ac mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi gorchymyn bod yn rhaid i'r holl staff sy'n defnyddio offer TG gwblhau'r modiwl hwn.

Safon Diogelwch Safonol ar Gyfer Staff (BPSS)

Rhaid i'r holl staff sydd â mynediad at ddata SWYDDOGOL-SENSITIF sy'n deillio o swyddfa'r cabinet fynd trwy'r broses BPSS sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynhyrchu prawf adnabod, prawf cenedligrwydd a chael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cytundebau Prosesu Data

Mae'n ofynnol i bob contractwr sydd naill ai'n cynnal systemau TG y Cyngor neu sydd â mynediad o bell i systemau TG y Cyngor lofnodi Cytundeb Prosesu Data (CPD).

Mae'r CPD yn amlinellu cyfrifoldebau'r contractwr o ran Diogelwch Seiber ac mae hefyd yn golygu bod raid iddynt, yn unol â'r gyfraith, dderbyn atebolrwydd ariannol llawn am unrhyw achosion o dorri rheoliadau a hawliadau am iawndal sy'n codi o ganlyniad i'w methiant i gydymffurfio.

Cytundeb Polisi

Mae gan y Cyngor bolisiau amrywiol ar waith ar gyfer defnyddio TG yn ddiogel, gan gynnwys Polisi Defnydd Derbyniol a Pholisi Diogelwch TG. Mae'r Polisi Defnydd Derbyniol a'r Polisi Diogelwch TG yn amlinellu cyfrifoldebau staff o ran amddiffyn diogelwch systemau TG y Cyngor ac mae'n orfodol bod yr holl staff sy'n defnyddio offer TG yn adolygu ac yn derbyn y polisiau hyn.

Gwe-rwydo

Defnyddir y math hwn o ymosodiad i gael gwybodaeth ariannol neu wybodaeth gyfrinachol arall gan ddiodeffwr. Gwneir hyn yn nodweddiadol trwy anfon e-bost sy'n edrych fel pe bai'n dod o sefydliad cyfreithlon fel banc ond sy'n cynnwys dolen i wefan ffug sydd yr un fath â'r un go iawn. Mae manylion mewngofnodi'r diodeffwr yn cael eu dal gan y wefan ffug wrth fewngofnodi a'u trosglwyddo i'r ymosodwr.

Tra bo ymosodiad Gwe-rwydo generig yn cael ei e-bostio i filoedd o ddiodeffwyr posib ar y tro, mae math arall o We-rwydo o'r enw "Gwe-drywanu". Mewn ymosodiad Gwe-drywanu targedir sefydliad penodol neu hyd yn oed unigolyn ac felly bydd y wefan ffug a'r e-bost yn cael eu teilwra i edrych yn fwy cyfarwydd a chredadwy i'r diodeffwr. Er enghraifft, gall yr ymosodwr geisio dynwared Desg Gymorth TG y sefydliad.

Lliniaru

Hidlo E-byst a chynnwys y we

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gan y Cyngor dechnoleg hidlo soffistigedig gyda'r nod o rwystro e-byst Gwe-rwydo a hefyd i rwystro'r gwefannau maleisus y maent yn ceisio dargyfeirio diodeffwyr atynt.

Hyfforddiant Diogelwch Seiber

Mae ffurfweddu systemau e-bost a systemau hidlo cynnwys y we yn gydbwysedd rhwng blocio cynnwys yr amheuir ei fod yn faleisus a sicrhau nad yw gweithgareddau busnes cyfreithlon yn cael eu rhwystro. Gyda hyn mewn golwg, mae'n anochel y bydd rhai negeseuon e-bost Gwe-rwydo yn dod drwodd ac mae'n hanfodol bod yr holl staff yn ymwybodol o Fygythiadau Seiber.

Fel y nodwyd yn flaenorol, rhaid i holl staff y Cyngor sy'n defnyddio offer TG gwblhau modiwl E-Ddysgu gorfodol ar Ymwybyddiaeth o Diogelwch Seiber. Mae gan y modiwl hwn adrannau penodol ar beryglon e-byst maleisus a Gwe-rwydo yn benodol. Mae staff hefyd yn adolygu'r Polisi Diogelwch TG sy'n nodi'r peryglon a ddaw yn sgil e-byst maleisus ac yn cofnodi eu bod yn derbyn y polisi.

4. PA SICRWYDD SYDD YN EI LE?

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn manylu ar rai o'r gwiriadau a wneir i sicrhau bod y camau amddiffyn sydd gan y Cyngor yn ddigonol i leihau'r risg o ymosodiad seiber llwyddiannus i lefel resymol.

Achrediad PSN gan Swyddfa'r Cabinet



Rhwydwaith cyflym y Llywodraeth yw Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus (PSN) a ddefnyddir gan y sector cyhoeddus i gyfnewid data mewn modd diogel. Gan fod y PSN i bob pwrpas yn caniatáu cysylltu â systemau Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Gwaith a Phensiynau, rhaid i'r Cyngor gael asesiad annibynnol trwyadl bob blwyddyn. Mae methu â chyflawni'r safon Diogelwch Seiber ofynnol yn arwain at ddatgysylltu o'r rhwydwaith ac anallu i brosesu cymorthdaliadau budd-dal.

Mae'r Cyngor wedi llwyddo yn yr asesiad PSN blynyddol bob blwyddyn ers iddo ddod yn ofyniad.

Cyber Essentials+ ac Achrediad IASME



Trwy raglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae awdurdodau lleol wedi bod yn cynnal prawf ar eu trefniadau Diogelwch Seiber a llywodraethu gwybodaeth yn erbyn yr arfer gorau.



IASME Consortium®

Ar ôl proses archwilio drwyadl, mae'r Cyngor yn un o ddim ond saith awdurdod yng Nghymru sydd wedi cyflawni safon Cyber Essentials Plus a'r Achrediad IASME llawn.

'Roedd yr achrediad yn cynnwys profion ar ddiogelwch yr holl systemau a dyfeisiau TG. 'Roedd y profion hyn yn debyg i ymosodiad seiber, ac yn ogystal fe gynhaliwyd archwiliad trylwyr ar y safle a oedd yn rhoi sylw i bolisiau diogelwch TG a pholisiau llywodraethu gwybodaeth a lle bu'n rhaid cael mewnbyn sylweddol gan gydweithwyr yn y meysydd Adnoddau Dynol a Llywodraethu Gwybodaeth.

Archwilio Mewnol

Oherwydd bod bygythiadau seiber yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, adolygir trefniadau'r Cyngor yn y maes hwn gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Yn ystod 2018/19 cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad i sefydlu a oes gan y Cyngor "drefniadau amddiffyn, canfod ac ymateb digonol ar waith i liniaru'r risg i rwydwaith, systemau, gwybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor yn sgil ymosodiad seiber".

O ganlyniad i'r adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod gan y Cyngor nifer o reolaethau gweithredol effeithiol i reoli'r risg i Ddiogelwch Seiber ac i atal a lleihau'r effaith ar wasanaethau, systemau a gwybodaeth y Cyngor yn sgil ymosodiadau maleisus, allanol.

5. BETH YW'R HERIAU I'R DYFODOL

Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gallu dangos a rhoi sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli Bygythiadau Seiber i lefel dderbyniol. Fodd bynnag wrth i nifer a soffistigedigrwydd y bygythiadau hyn dyfu mae'r baich yn tyfu hefyd o ran;

- Ymchwilio i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg a datblygu mesurau amddiffynnol
- Ariannu, gweithredu a monitro'r nifer gynyddol o dechnolegau amddiffyn rhag bygythiadau sydd raid wrthynt.
- Cydgysylltu â chydweithwyr diogelwch yn WARP a NCSC i rannu gwybodaeth.
- Adnoddau i ddatblygu polisïau, codi ymwybyddiaeth a monitro cydymffurfiaeth.

Nid yw'r heriau hyn yn unigryw i'r Cyngor a chedwir llygad ar yr adnoddau y bydd eu hangen a gwneir ceisiadau am arian ychwanegol fel y bydd angen.

6. ARGYMHELLIAD

Argymhellir nodi'r sicrwydd a roddir yn yr adroddiad.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	3 RHAGFYR 2019
PWNC:	ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN - RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20
AELOD(AU) PORTFFOLIO	CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)
AWDUR YR ADRODDIAD: FFÔN: E-BOST:	GARETH ROBERTS 01248 752675 GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	d/b

1. Cefndir

1.1 Strategaeth Gyfalaf

Yn Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Godau Rheoli'r Trysorlys a Darbodus diwygiedig. O 2019/20, bydd angen i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf fydd yn darparu'r canlynol: -

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut mae'r risg gysylltiedig yn cael ei rheoli; a
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Cafodd adroddiad yn cynnwys ein Strategaeth Gyfalaf ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2019, a bydd Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 yn mynd gerbron y Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2020.

1.2 Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras bod arian a godir yn ystod y flwyddyn yn talu am ei wariant ariannol. Mae rhan o weithrediadau rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod y llif ariannol hwn yn cael ei gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartion risg isel, gan sicrhau hylifedd digonol i gychwyn cyn ystyried yr elw gorau posibl o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn arwydd o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthycu, hynny yw, y gwaith o gynllunio llif arian yn y tymor hir i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gallai'r gwaith hwn o reoli arian yn y tymor hir gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio arian dros ben o'r llif arian tymor hir ac, ar adegau, gall unrhyw ddyled a drefnwyd yn flaenorol gael ei hailstrwythuro i gwrdd ag amcanion risg neu gost y Cyngor.

Yn unol â hyn, diffinnir rheoli'r trysorlys fel hyn:-

“Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drefniadau bancio a thrafodion ar y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.”

2. Rhagarweiniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (diwygiwyd 2017). Dyma ofynion sylfaenol y Côd:-

- (i) Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.
- (ii) Creu a chynnal Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.
- (iii) Y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a Pholisi y Ddarpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, sy'n rhoi sylw i weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- (iv) Y Cyngor llawn yn dirprwyo cyfrifoldebau am weithredu a monitro'r polisïau ac arferion rheoli'r trysorlys ac am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys.
- (v) Y Cyngor yn dirprwyo'r gwaith o graffu'r strategaeth a'r polisïau rheoli'r trysorlys i gorff penodol, sef y Pwyllgor Archwilio yn achos y Cyngor hwn.

Mae'r adroddiad canol blwyddyn hwn wedi'i baratoi yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, ac mae'n cynnwys y canlynol:-

- Diweddariad economaidd ar gyfer rhan gyntaf blwyddyn ariannol 2019/20;
- Adolygiad o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2019/20;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2019/20;
- Adolygiad o unrhyw ail drefnu dyledion yn ystod 2019/20;
- Crynodeb o weithgaredd ers Chwarter 2; ac
- Adolygiad o gydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2019/20.

3. Diweddariad Economaidd

3.1 Rhoddwyd diweddariad economaidd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Hefyd yn ddiweddar, maent wedi darparu'r rhagolwg cyfradd llog canlynol:-

	Rhag 2019	Mawrth 2020	Mehefin 2020	Medi 2020	Rhag 2020	Mawrth 2021	Mehefin 2021	Medi 2021	Rhag 2021	Mawrth 2022
Cyfradd Banc (%)	0.75%	0.75%	0.75%	0.75%	0.75%	1.00%	1.00%	1.00%	1.00%	1.00%
Cyfradd 5 mlynedd PWLB (%)	2.30%	2.40%	2.40%	2.50%	2.50%	2.60%	2.70%	2.80%	2.90%	2.90%
Cyfradd 10 mlynedd PWLB (%)	2.60%	2.70%	2.70%	2.70%	2.80%	2.90%	3.00%	3.10%	3.20%	3.20%
Cyfradd 25 mlynedd PWLB (%)	3.20%	3.30%	3.40%	3.40%	3.50%	3.60%	3.70%	3.70%	3.80%	3.90%
Cyfradd 50 mlynedd PWLB (%)	3.10%	3.20%	3.30%	3.30%	3.40%	3.50%	3.60%	3.60%	3.70%	3.80%

3.2 Yn ddiweddar, darparodd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sylwadau i gyd-fynd â'r rhagolwg cyfradd llog uchod. Mae'r sylwadau hyn i'w gweld yn Atodiad 2.

4. Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

4.1 Cymeradwywyd Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS) ar gyfer 2019/20 gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019. Nid oes unrhyw newidiadau polisi i'r TMSS; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddarau'r sefyllfa yn wyneb y sefyllfa economaidd ddiweddaraf a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

5. Portffolio Buddsoddi 2019/20

- 5.1 Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod cyfalaf a hylifedd yn ddiogel, a chael lefel enillion briodol sy'n gyson ag awydd y Cyngor i gymryd risgiau. Fel y nodir yn Adran 3, mae'n farchnad fuddsoddi anodd iawn o ran cael y cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin yn y degawdau blaenorol gan fod y cyfraddau yn isel iawn ac yn gyson â'r Gyfradd Banc gyfredol, sef 0.75%. Mae'r posibilrwydd parhaus o argyfwng dyled sofran ym mharth yr Ewro, a'i effaith ar fanciau, yn ein hannog i ddilyn strategaeth risg isel a thymor byr. O ystyried yr amgylchedd risg hwn a'r ffaith y bydd cynnydd yng Nghyfradd y Banc yn debygol o ddigwydd yn raddol ac yn annhebygol o ddychwelyd i'r lefelau a welwyd yn y degawdau gorffennol, mae'r incwm a geir o fuddsoddiadau yn debygol o barhau i fod yn isel.
- 5.2 Roedd gan y Cyngor £18.551m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2018 (£14.333m ar 31 Mawrth 2019) a'r enillion o'r portffolio buddsoddiadau am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.62%. Mae rhestr lawn o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2019 i'w gweld yn Atodiad 3. Mae crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau i'w gweld yn Atodiad 4.
- 5.3 Ni thorrwyd y terfynau a gymeradwywyd o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod chwe mis cyntaf 2019/20.
- 5.4 Yr incwm y mae'r Cyngor wedi cyllidebu y bydd yn ei dderbyn o'i fuddsoddiadau ar gyfer 2019/20 ar ei hyd yw £0.031m ac mae'r perfformiad am y flwyddyn hyd yma'n uwch na'r gyllideb, gyda £0.041m wedi'i dderbyn ar ddiwedd Chwarter 2. Y rheswm am hyn yw ein bod yn buddsoddi arian sydd dros ben mewn Awdurdodau Lleol eraill, sy'n rhoi gwell dychweliad ar fuddsoddiad na chyfrif galw mewn banc.
- 5.5 Mae'r meini prawf gwrthbartion buddsoddi presennol a gymeradwywyd yn y TMSS yn cwrdd â gofynion swyddogaeth rheoli'r trysorlys.
- 5.6 Mae'r gwledydd a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau i'w gweld yn Atodiad 5.
- 5.7 Dengys y tabl isod restr o fuddsoddiadau a wnaed i Awdurdodau Lleol eraill yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn ariannol hon. Yn wyneb y ffaith fod diogelwch arian yn ddangosydd allweddol i'r Cyngor hwn, ystyrir mai Awdurdodau Lleol eraill yw'r llefydd mwyaf diogel i fuddsoddi arian ac mae'n rhoi gwell dychweliad na'r rhan fwyaf o gyfrifon galw mewn banciau.


Llywodraeth Leol	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog%	Swm (£)
Central Bedfordshire Council	04/04/19	05/07/2019	0.75%	5,000,000.00
Cheltenham Borough Council	21/08/19	20/09/2019	0.68%	5,000,000.00
Cheltenham Borough Council	20/09/19	25/10/2019	0.63%	5,000,000.00
Wirral Council	31/07/19	30/08/2019	0.68%	5,000,000.00
Wirral Council	30/08/19	30/09/2019	0.63%	5,000,000.00
Wirral Council	30/09/19	29/10/2019	0.63%	5,000,000.00
Sutton London Borough Council	29/08/19	25/09/2019	0.60%	5,000,000.00
Mid Suffolk District Council	24/09/19	25/11/2019	0.65%	3,000,000.00

6. Benthycia

- 6.1 Y gofyniad cyllido cyfalaf (GCC) a ragamcanwyd ar gyfer 2019/20 yw £140.2m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia at ddibenion cyfalaf. Os yw'r GCC yn gadarnhaol, gall y Cyngor fenthycia gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) neu'r farchnad (benthycia allanol) neu o falansau mewnol ar sail dros dro (benthycia mewnol). Yn gyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng benthyciadau allanol a mewnol yn cael ei ysgogi gan amodau'r farchnad. Rhagwelir y bydd y Cyngor wedi benthyc £127.6m ar ddiwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £12.6m o gyllid llif arian yn lle benthycia. Mae hon yn ffordd ddarbodus a chost effeithiol yn yr hinsawdd economaidd bresennol ond bydd angen monitro'r sefyllfa'n barhaus os bydd yr enillion o gyllidau yn uwch nag a ragwelwyd.

6.2 Ni chafodd unrhyw arian ei fenthycu yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn ariannol hon ac ni ragwelir y bydd angen unrhyw fenthycu allanol ychwanegol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd raid benthycu i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2019/20, ond bydd hyn drwy fenthycu'n fewnol (tynnu i lawr y balansau ariannol).

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y symudiad yng ngraddfeydd sicrwydd PWLB am chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yma. Mae cyfraddau PWLB wedi bod yn gostwng yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r cyfraddau cyfnodau hirach bron wedi haneru gan olygu eu bod ar eu hisaf erioed. Gostyngodd targed cyfraddau (sicrwydd) 50 mlynedd PWLB ar gyfer benthyciadau newydd tymor hir o 2.50% i 2.00% yn ystod y cyfnod hwn: -



	1 BI	5 MI	10 MI	25 MI	50 MI
Isel	1.17%	1.01%	1.13%	1.73%	1.57%
Dyddiad	03/09/19	03/09/19	03/09/19	03/09/19	03/09/19
Uchel	1.58%	1.73%	2.07%	2.58%	2.41%
Dyddiad	15/04/19	17/04/19	17/04/19	17/04/19	17/04/19
Cyfartaledd	1.40%	1.37%	1.62%	2.20%	2.07%

6.3 Ar 9 Hydref 2019, cyhoeddodd y Trysorlys a PWLB gynnydd o 100 o bwyntiau sylfaen (1%) yn y gyfradd fenthycu. Ni chafwyd unrhyw rybudd ymlaen llaw y byddai hyn yn digwydd ac mae'n golygu bod raid i bob awdurdod lleol yn awr ail-asesu'n sylfaenol y modd y byddant yn cyllido eu hanghenion i fenthycu'n allanol a hyfywedd ariannol prosiectau cyfalaf yn eu rhaglenni cyfalaf oherwydd y cynnydd annisgwyl hwn yng nghost benthycia. Bwriedir cyflwyno sylwadau i Drysorlys EM yn awgrymu na ddylai meysydd gwariant cyfalaf y mae'r Llywodraeth yn dymuno gweld cynnydd ynddynt, e.e. tai, fod yn agored i gynnydd mor fawr yn y benthyciadau.

Er bod yr Awdurdod hwn wedi dibynnu yn y gorffennol ar PWLB fel ei brif ffynhonnell gyllido, mae'n rhaid iddo'n awr ystyried ffynonellau benthycu rhatach. Ar hyn o bryd, mae hwn yn faes sy'n datblygu oherwydd mae wedi bod yn sioc hefyd i'r diwydiant gwasanaethau ariannol. Rydym yn disgwyl i wahanol sefydliadau cyllido ddod i mewn i'r farchnad neu gynnig cynnyrch i awdurdodau lleol. Bydd Aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

26. Daeth ein hadolygiad dilyn i fyny i'r canlyniad bod rheolwyr wedi gwneud llawer o waith i fynd i'r afael â'r materion/risgiau oedd heb eu datrys yn dilyn yr adroddiad dilyn i fyny cyntaf. Gallwn gadarnhau bod trefniadau gwahanu dyletswyddau wedi cael eu sefydlu erbyn hyn yn Nhîm Cyllid Cleientiaid y Gwasanaethau Oedolion ac mae gweithdrefnau penodol ar gyfer ad-ennill a dileu dyledion Gofal Cartref. Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau bolisi gweithdrefn penodol ar gyfer mân ddyledwyr i'r Penaethiaid Gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r polisi diwygiedig yn datrys rhai o'r materion/risgiau a nodwyd yn yr archwiliad gwreiddiol, ac mae'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi gwneud newidiadau i adlewyrchu ymarfer presennol.
27. Erbyn hyn mae'r Adain Incwm wedi llenwi'r swydd a oedd yn cael ei hysbysebu yn ystod yr adolygiad dilyn i fyny cyntaf ac mae'r adran wedi gwneud cynnydd o ran cynnig gwahanol ddulliau talu, gyda'r bwriad o leihau nifer yr anfonebau dyledwyr sy'n cael eu codi. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi a dros amser bydd yn rhyddhau staff i weithio mewn meysydd eraill, megis dyledwyr. Fodd bynnag, mae'r Adain yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar un aelod o staff, a bydd hynny'n parhau nes eu bod yn symleiddio ac yn awtomeiddio prosesau ymhellach, a hyd nes y bydd gwelliant o ran trosglwyddo gwybodaeth a dirprwyo.
28. Erbyn hyn, penderfynwyd pwy sy'n gyfrifol am gysoni dyledwyr a bu cynnydd yn y gwaith yn y maes hwn. Er nad yw'n cael ei wneud yn fisol, mae'r Arweinydd Tîm Incwm wedi ein sicrhau bod modd cyflawni hynny. Bu gwelliant yn yr amser a gymer i godi ac awdurdodi cyfrifon dyledwyr ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r polisi yn awr. Fodd bynnag, canfuom rai achosion nad ydynt yn cydymffurfio â'r targedau yn y canllawiau. Mae amseroedd adennill wedi gwella'n sylweddol ers ein adolygiad dilyn i fyny diwethaf ac erbyn hyn maent yn cydymffurfio â chanllawiau'r polisi.

29. O'r 13 mater/risg oedd heb eu datrys yn dilyn yr adolygiad dilyn i fyny cyntaf ym mis Hydref 2018, rhoddwyd sylw i bump ohonynt, ac mae wyth yn derbyn sylw ar hyn o bryd. Mae dyddiad cwblhau un ohonynt wedi cael ei ymestyn ac nid oes disgwyl iddo fod wedi cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Lle mae gwaith yn mynd rhagddo a bod hynny wedi lleihau'r posibilrwydd o risg, rydym wedi adlewyrchu hynny yn y raddfa risg. O ganlyniad, rydym wedi gallu cynyddu'r sicrwydd a roddwyd i 'Rhesymol'. Fodd bynnag, oherwydd nifer y materion/risgiau sydd heb eu datrys a'r effaith y gallent eu cael yn y maes hwn, byddwn yn dilyn i fyny y cynllun gweithredu yn ffurfiol unwaith eto ym mis Mai 2020.

Gwaith Dilyn i Fyny sy'n mynd rhagddo

30. Rydym yn gweithio ar hyn o bryd ar **ddau** adroddiad dilyn i fyny gyda graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig', ynghyd ag adroddiad dilyn i fyny pellach ar asesiad a gynhaliwyd gan ymgynghorydd allan, na roddwyd lefel sicrwydd iddo:

Teitl yr Archwiliad	Adolygiad	Dyddiad Dilyn i Fyny	Lefel Sicrwydd	Critigo I	Sylwed dol	Rhesymol	Cyfanswm
Ysgolion Cynradd – Casglu Incwm	Adroddiad Dilyn i Fyny cyntaf	Mehefin 2019 ¹	Cyfyngedig	0	2	1	3
Taliadau Uniongyrchol	Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf	Medi 2019	Cyfyngedig	0	0	5	5
Asesiad o drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion	Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf	Tachwedd 2019	Amherthnasol	n/a	n/a	n/a	n/a

Gwaith Dilyn i Fyny sydd ar y gweill

31. Ar hyn o bryd, mae gennym **ddau** o adroddiadau dilyn i fyny wedi eu rhaglennu ar gyfer y chwe mis nesaf. Efallai yr ychwanegir at y rhain gan ddibynnu ar yr adolygiadau y byddwn yn eu cynnal drwy gydol y flwyddyn:


Teitl yr Archwiliad	Adolygiad	Dyddiad Dilyn i Fyny	Lefel Sicrwydd	Critigo I	Sylwed dol	Rhesymol	Cyfanswm
Rheoliadau Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau	Pedwerydd Adroddiad Dilyn i Fyny	Gorff 2019 Ebrill 2020 ²	Cyfyngedig	0	3	2	5
Mân Ddyledwyr	Trydydd Adroddiad Dilyn i Fyny	Mai 2020	Rhesymol	0	1	7	8

¹ Gohiriwyd y gwaith dilyn i fyny oherwydd bod y swyddog sy'n gyfrifol am roi camau gweithredu rheolwyr ar waith ar absenoldeb mamolaeth ac am fod y Cyngor yn recriwtio Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau, Pobl Ifanc a Dysgu Gydol Oes newydd.

² Mae'r camau gan reolwyr i roi sylw i'r 'Materion/Risgiau' a godwyd yn yr adolygiadau o Reoliadau Systemau - Mynediad Rhesymegol a Gwahaniad Dyletswyddau yn dibynnu ar ailstrwythuro'r swyddogaeth Cyflogres/Taliadau sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2020.

MYND I'R AFAEL Â 'MATERION/RISGIAU'

32. Mae'r graff a'r tabl isod yn amlygu perfformiad rheolwr wrth fynd i'r afael â 'materion/risgiau' a rhoi gweithredoedd ar waith.



33. Nid oes unrhyw 'faterion/risgiau' Uchel neu Goch heb eu datrys ar hyn o bryd, ac mae perfformiad o ran mynd i'r afael â 'materion/risgiau' Ambr wedi gwella ers ein hadroddiad diweddar diwethaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 3 Medi. Mae'r ganran weithredu gyffredinol ar gyfer 'materion/risgiau' Uchel/Coch/Ambr yn 94%. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r adroddiad dilyn i fyny ar Fân Ddyledwyr, y manylwyd arno yn gynharach yn yr adroddiad, lle cafodd tri 'mater/risg' ambr naill ai eu gweithredu'n llawn, neu eu hailsgorio a rhoi lefel risg is iddynt yn dilyn gwaith a wnaed i fynd i'r afael â'r risg.
34. Bu gwelliant hefyd mewn perfformiad wrth fynd i'r afael â risgiau Canolig/Melyn sydd heb eu cwblhau. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o chwech yn y gweithrediadau sydd heb eu cwblhau, wedi eu rhannu rhwng gwahanol wasanaethau. Roedd tri ohonynt yn hen 'faterion/risgiau' graddfa 'Canolig', ac erbyn hyn dim ond tri o 'faterion/risgiau' ar yr hen raddfa sydd heb eu cwblhau, a'r tri yn ymwneud ag ysgolion.
35. Mae cynnydd o ran gweithredu'r fersiwn newydd wedi'i diweddarau o'r system tracio gweithredoedd wedi cael ei lyffetheirio gan fater yn ymwneud â chydweddu systemau TG na chafodd ei ddatrys tan yn ddiweddar. Erbyn hyn rydym yn gweithio gyda'r darparwr meddalwedd i ailgyflunio'r system newydd er mwyn manteisio ar y swyddogaethau ychwanegol a glanhau'r data hanesyddol cyn gweithredu'r system newydd.

CYNNYDD O RAN CYFLAWNI'R CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

36. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019/20 wedi'i gynnwys yn [Atodiad A](#).

37. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr archwiliadau canlynol:

- Gwydnwch TG
- Parhad Busnes
- Diwygio Lles - Digartrefedd
- Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion
- Brexit
- Proses gweithwyr sy'n gadael
- Rheoli'r Risg o Dwyll

ATODIAD A – CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Tudalen 62

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirionedd ol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
CORFFORAETHOL								
Corfforaethol	Parhad Busnes (YM9)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2	C2	10	8.75	Gwaith yn mynd rhagddo	Chwefror 2020 (Targed diwygiedig)
Corfforaethol	Diogelu Corfforaethol (YM11)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2	D2	18	18	Sicrwydd Rhesymol	Rhagfyr 2018 (2018/19)
	CONTEST (Gwrthderfysgaeth ac Atal Radicaleiddio) ³ (YM11)	Cofrestr Risg Gorfforaethol					Sicrwydd Rhesymol	Medi 2019 (2019/20)
Corfforaethol	Cynllunio Corfforaethol (YM13)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D2	D3	0	0	Wedi'i Ddileu	Ebrill 2019 (2018/19)

³ Risg 'arunig' yn flaenorol - YM27

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
Corfforaethol	Gwydnwch Ariannol (YM41)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	A1	B2	12	0	Gwaith sgopio'n mynd rhagddo	Ebrill 2020 (Targed)
Corfforaethol	Llywodraethu Gwybodaeth (YM3)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B3	C3	0	0	Sicrwydd Rhesymol	Rhagfyr 2018⁴ (2018/19)
Corfforaethol	Safonau Diogelwch Diwydiant y Cardiau Talu (PCIDSS) (YM34)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D1	D1	7	7	Sicrwydd Rhesymol	Mehafin 2019 (2019/20)
Corfforaethol	Brexit	Cofrestr Risg Gorfforaethol	A2		5	1.5	Gwaith sgopio'n mynd rhagddo	Chwefror 2020 (Targed)
Corfforaethol	Proses gweithwyr sy'n gadael	Codwyd pryderon			25	0.5	Gwaith sgopio'n mynd rhagddo	Ebrill 2020 (Targed)
Corfforaethol	Rheoli Risg	Gofyniad PSIAS			5	0	Wedi ei reoli	Chwefror 2019 (ZRE) (2018/19)
Corfforaethol	Rheoli'r Risg o Dwyll	Gofyniad PSIAS			20	0	Gwaith yn mynd rhagddo	Ebrill 2020 (Targed)

⁴ Darparwyd sicrwydd ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a oedd yn flaenorol yn Risg Ambr 'arunig' (YM31)

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygied ig 2019-20	Dyddiau gwirionedd ol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
Corfforaethol	Diwylliant – Gwarchod Enw Da a'r Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol	Sganio'r Gorwel			10	0		
ADNODDAU								
Adnoddau	Adennill a Dileu Dyledion	System Ariannol Allweddol – Swyddog 151 wedi codi pryderon			10	0		
Adnoddau	Caffael Corfforaethol (YM22)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	D2	0	0	Sicrwydd Rhesymol	Rhagfyr 2018 (2018/19)
Adnoddau	Cardiau Caffael Corfforaethol	Codwyd pryderon			20	0		
Adnoddau	Cyflogres	System ariannol allweddol – ailstrwythuro a system newydd; sicrwydd archwilio allanol			0	0	Gohiriwyd tan 2020/21	
TRAWSNEWID								
TGCh	Archwiliad TG – Diogelwch Seibr (YM28)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B1	C1	0	0	Sicrwydd Rhesymol	Chwefror 2019 (2018/19)

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygiedig 2019-20	Dyddiau gwirioneddol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
TGCh	Archwiliad TG – Gwydnwch TG (YM38)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C1	D2	15	9.5	Gwaith yn mynd rhagddo	Chwefror 2020 (Targed diwygiedig)
Adnoddau Dynol	Absenoldeb Salwch (YM23)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	A2	D3	0	0	Wedi'i Ddileu	
Adnoddau Dynol	Recriwtio a Chadw Staff (YM5)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	C2	0	0	Sicrwydd Rhesymol	Ebrill 2019 (2018/19)
Adnoddau Dynol	Diwylliant y Gweithle – Gwahaniaethu ac Anghydraddoldeb Staff	Sganio'r Gorwel			10	0		
RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD								
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Prosiectau Seilwaith (YM17)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	D2	20	0.25		
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden – Buddsoddi mewn Cyfleusterau (YM32)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	B3	15	0		

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaet hol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaet hol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygied ig 2019-20	Dyddiau gwirionedd ol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden - Llywodraethant a Rheoli	Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth – newidiadau strwythurol sylweddol (cariwyd drosodd o 2018/19)			2	2	Sicrwydd Rhesymol	Ebrill 2019 (2018/19)
PRIFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO								
Eiddo	Rheoli Asedau	Sganio'r Gorwel			10	0		
TAI								
Tai	Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014) (YM29)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	C2	0	0	Sicrwydd Rhesymol	Ebrill 2019 (2018/19)
Tai	Diwygio Lles – Credyd Cynhwysol ac Incwm Rhenti Tai (YM 10)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B2	C2	0	7.75	Sicrwydd Rhesymol	Ebrill 2019 (2018/19)
	Diwygio Lles – Digartrefedd (YM10)				10	1.25	Gwaith yn mynd rhagddo	Chwefror 2020 (Targed diwygiedig)
GWASANAETHAU OEDOLION								
Oedolion	Gofal Iechyd Parhaus	Sganio'r Gorwel	d/b	d/b	10	0		

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygied ig 2019-20	Dyddiau gwirionedd ol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
DYSGU								
Dysgu	Moderneiddio Ysgolion (YM15)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2	C2	20	0		
	CYFANSWM DYDDIAU ARCHWILIO				254⁵	56.5		
DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)								
	Gwaith Dilyn i Fyny	Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig sydd angen eu dilyn i fyny, yn cynnwys adrodd ar a gweinyddu 4Action			60	51.25		
	Gwaith Gwrth Dwyll Cyffredinol, Menter Dwyll Genedlaethol (NFI)				30	3		
	Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion	Gwaith gwrthdwyll rhagweithiol			25	4		
	Cyfeiriadau				20	3.5		

Tudalen 67

⁵ 420 diwrnod yn flaenorol

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaet hol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaet hol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygied ig 2019-20	Dyddiau gwirionedd ol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
	Cau gwaith y flwyddyn flaenorol				13	13		
Tudalen 68	Ardystio Grantiau:	Gofynion Grant			20	20		
	Grant Rhentu Doeth Cymru						Sicrwydd Sylweddol	Medi 2019 (2019/20)
	Grant Datblygu Disgyblion						Sicrwydd Sylweddol	Medi 2019 (2019/20)
	Grant Datblygu Disgyblion – Dyranriad Plant sy'n Derbyn Gofal						Sicrwydd Sylweddol	Rhagfyr 2019 (2019/20)
	Dyfarniad Cyflog Athrawon a Phwysau ar Gostau						Sicrwydd Sylweddol	Rhagfyr 2019 (2019/20)
	Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad						Sicrwydd Sylweddol	Rhagfyr 2019 (2019/20)
	Dysgwyr o Gefndir Ethnig, Lleiafrifol, Sipsi, Roma neu Deithwyr						Sicrwydd Sylweddol	Rhagfyr 2019 (2019/20)
	Costau Ychwanegol Prydau Ysgol am Ddim oherwydd cyflwyno Credyd Cynhwysol						Sicrwydd Rhesymol	Rhagfyr 2019 (2019/20)
	Ymgynghoriaeth Gorfforaethol				60	51.75		

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaet hol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaet hol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygied ig 2019-20	Dyddiau gwirionedd ol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yn cynnwys hyfforddiant i aelodau a hunan-asesu				60	31.75		
	Adolygiad Rheoli				40	20		
	Wrth gefn				60	0		
	CYFANSWM				388⁶	198.25		
DYDDIAU NA ELLIR CODI AMDANYNT (ANGHYNHYRCHIOL)								
	Risg ac Yswiriant				24	20.5		
	Gweinyddiaeth Gyffredinol				40	28.75		
	Datblygiad Personol ac Adolygiadau, cyfarfodydd un i un a chyfarfodydd Tîm				25	7		
	Rheoli, yn cynnwys ymgysylltu ag Archwilio Allanol a pharatoi cynllun archwilio				48	24.25		
	Gwyliau, yn cynnwys gwyliau blynyddol, statudol, arbennig a salwch				517 ⁷	409.75		
	Hyfforddiant a Datblygiad Staff				125	77.5		
	CYFANSWM				779⁸	568		

Tudalen 69

⁶ 440 diwrnod yn flaenorol

⁷ 182 diwrnodau yn flaenorol

⁸ 440 diwrnodau yn flaenorol

Gwasanaeth / Adain	Teitl	Rheswm dros gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaet hol (Cynhenid)	Graddfa Risg Gorfforaet hol (Gweddillio I)	Dyddiau Dangosol Diwygied ig 2019-20	Dyddiau gwirionedd ol fel ar 10/11/19	Nodiadau / Graddfa Sicrwydd	Dyddiad adrodd i bwyllgor
	CYFANSWM ADNODDAU ANGENRHEIDIOL				1420	823		
	ADNODDAU AR GAEL				1420⁹	823		
	DIFFYG ADNODDAU				0	0		
	CYNHYRCHIANT				46%¹⁰	32%		

Tudalen 70

⁹ 1,300 diwrnodau yn flaenorol

¹⁰ 67% yn flaenorol

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adrodd i:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Dyddiad:	3 Rhagfyr 2019
Pwnc:	Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 01248 752601 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae arfer dda yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sefydlu a yw'n parhau i fod briodol. Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei gylch gorchwyl ddiwethaf ym mis Medi 2018, ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2018 a chan y Cyngor Sir ym mis Rhagfyr 2018.	

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Mae pwyllgorau archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol ac yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi awdurdodau lleol. Maent yn ffynhonnell sicrwydd bwysig ynghylch trefniadau sefydliad i reoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall.
- 1.2. Mae Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn darparu ar gyfer adolygiad rheolaidd o'i gylch gorchwyl. Yn sgil yr adolygiad diwethaf, cymeradwywyd cylch gorchwyl a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n llawn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chyhoeddiad canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA).

2. Ymgynghoriad

- 2.1. Oherwydd yr adolygiad llawn o'r cylch gorchwyl yn 2018, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori sylweddol ac eang er mwyn mofyn sylwadau cydranddeiliaid. Oherwydd nad oes unrhyw ganllawiau newydd sy'n benodol i'r sector wedi cael eu cyhoeddi ac oherwydd na wnaed unrhyw newidiadau o bwys sy'n effeithio ar y cylch gorchwyl, cyfyngwyd yr ymgynghori i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 ac ymgynghorydd o'r Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus. Ni chafodd unrhyw newidiadau arwyddocaol eu nodi.

3. Argymhelliad

- 4.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried ac yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl cyfredol gyda mân-newidiadau yn unig i ddiweddarau teitl swydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151.



Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Cylch Gorchwyl

Rhagfyr 2019

Datganiad o bwrpas

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.
2. Pwrpas y pwyllgor archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethiant. Mae'n goruchwyllo archwiliad mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.
3. Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau sgrïwtini. Fel rhan o rôl y pwyllgor archwilio, mae'n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu gweithgareddau.

Cyfansoddiad a threfniadau

4. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
5. Bydd y pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a dau aelod lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn argymhell penodi'r ddau aelod lleyg i'r pwyllgor archwilio. Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor. Mae'r holl aelodau, gan gynnwys aelodau lleyg, yn ddarostyngedig i Gôd Ymddygiad y Cyngor a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y pwyllgor archwilio.
6. Gall cadeirydd y pwyllgor archwilio fod yn gynghorydd neu'n aelod lleyg, ond ni chaiff fod yn aelod o grŵp sy'n ffurfio rhan o bwyllgor gwaith y cyngor, ac eithrio pan fo pob grŵp yn cael ei gynrychioli ar y pwyllgor gwaith (ac yn yr achos hwnnw, ni ddylai'r cadeirydd fod yn aelod o'r pwyllgor gwaith). Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar gadeirydd ac is-gadeirydd y pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys aelodau lleyg, bleidlais.

7. Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod pwyllgor archwilio wneud hynny. Rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt, ac eithrio rhai y gallent wrthod eu hateb os oeddent yn y llys. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.
8. Bydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd os rhoddir y nifer o ddyddiau angenrheidiol a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.
9. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwysr i'r pwyllgor.
10. Gall y pwyllgor gomisiynu gwaith gan yr archwilwyr allanol a mewnol a bydd y ddau yn cynghori'r Pwyllgor. Yn ogystal, gall y Pwyllgor geisio cyngor annibynnol o'r tu allan i'r Cyngor, o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.
11. Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.
12. Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

Trefniadau atebolrwydd

13. Bydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) yn flynyddol, ganfyddiadau'r pwyllgor archwilio, casgliadau ac argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.
 14. Bydd y pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) yn flynyddol ar effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio rhaglen waith y pwyllgor archwilio a chynlluniau hyfforddi a bydd yn llywio adroddiad blynyddol y pwyllgor.
-

15. Mae'r pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy'n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon.

Llywodraethu

16. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethiant da¹, gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y côd llywodraethu lleol.
17. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn ac yn ystyried a yw'n briodol adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol, gan ystyried barn y gwasanaeth archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor.
18. Bydd y pwyllgor yn helpu'r cyngor i weithredu gwerthoedd llywodraethu moesegol. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd ac adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a chydymffurfiad cyfreithiol ar bob lefel.
19. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio o bwys.

Rheoli Trysorlys

20. Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r pwyllgor archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.
21. Bydd y pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.
22. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob

¹ Cyflawni Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith, CIPFA / SOLACE, 2016

chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

23. Bydd y pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu'r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

Gwerth am arian

24. Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.
25. Bydd y pwyllgor yn adolygu ymagwedd gyffredinol y cyngor tuag at werth am arian ac yn asesu a yw'n cyd-fynd ag amcanion llywodraethu a'r sicrwydd ynghylch hyn i ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
26. Bydd y pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn, yn enwedig adroddiadau gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

Fframwaith sicrwydd

27. Bydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor yn ddigonol. Bydd hyn yn gymorth i gefnogi'r pwyllgor wrth iddo gymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg trwy nodi i ba raddau y bydd yn dibynnu ar archwiliad mewnol am ei ofynion sicrwydd.
28. Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu.

Rheoli risg

29. Bydd sicrwydd dros reoli risg yn elfen allweddol sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. I'r perwyl hwn, bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu datblygiad a gweithrediad rheolaeth risg effeithiol yn y cyngor. Yn benodol, bydd yn:
 - Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu'n ymarferol
 - Goruchwylio'r modd y caiff rheoli risg ei integreiddio i brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad
 - Adolygu'r trefniadau i gydlynu a rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd

- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr
- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth
- Adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisio sicrwydd bod y rheolwyr yn cymryd perchenogaeth briodol ac yn rheoli risgiau yn effeithiol
- Mofyn sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio i'r broses rheoli risg
- Cefnogi datblygiad ac ymgorffori arferion da yn y maes rheoli risg.

Mynd i'r afael â thwyll a llygredd

30. Bydd y pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y cyngor, gan gynnwys y polisi.
31. Bydd y pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau gwrth-dwyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r arferion, y safonau llywodraethu a ddeddfwriaeth a argymhellir.
32. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.
33. Bydd yn goruchwyllo unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

Archwiliad mewnol

34. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r pwyllgor archwilio oruchwyllo trefniadau archwilio mewnol y cyngor.
 35. Rôl y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag archwilio mewnol fydd:
 - goruchwyllo ei annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb
 - cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio fewnol
 - hyrwyddo defnydd effeithiol o archwiliad mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.
-

36. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.
37. Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.
38. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.
39. Bydd y pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.
40. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.
41. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
42. Bydd y pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau'r archwilyr mewnol.
43. Bydd y pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
44. Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.
45. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r diffyg

cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

46. Bydd y pwyllgor yn ystyried, yn cymeradwyo ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw ddulliau diogelu sydd wedi cael eu sefydlu i gyfyngu ar rwystrau i annibyniaeth a gwrthrychedd sydd gan y pennaeth archwilio mewnol yn deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol sydd y tu allan i'r maes archwilio mewnol.
47. Bydd y pwyllgor yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwiliad mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn goruchwyllo cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.
48. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwiliad mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
49. Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygiad dulliau cyfathrebu effeithiol â'r pennaeth archwilio mewnol. Mae'r ymgysylltiad rhwng y pennaeth archwilio mewnol a'r pwyllgor archwilio yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol.
50. Bydd y pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor.

Archwiliad allanol

51. Bydd y pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwiliad allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.
52. Bydd y pwyllgor yn ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*. Bydd yn cyfrannu at ymateb y cyngor i'r llythyr archwilio blynyddol.
53. Bydd y pwyllgor yn goruchwyllo trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.
54. Bydd y pwyllgor yn cynghori ac yn argymhell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwiliadau allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.
55. Bydd cyfle i'r pwyllgor archwilio gwrdd yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol, yn annibynnol o'r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

Adrodd ariannol

56. Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.
57. Bydd y pwyllgor yn adolygu, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn, ddatganiadau ariannol blynyddol yr awdurdod, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.
58. Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ac a oes angen eu dwyn i sylw'r cyngor ai peidio.

Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill

59. Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgrwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

Atodiad A - Adroddiadau, Rheoliadau a Pholisïau a Ystyriwyd

- Cyflwyniad i'r Gweithdy Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, 13 Mehefin 2018
- *Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu*, CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu*, CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a'r Nodyn Cymhwysiads Llywodraeth Leol* ategol ar gyfer Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig (LGAN)
- Siarter Archwilio Mewnol (Medi 2017)
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn benodol, Adran 85
- Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Llywodraeth Cymru, 2012
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018
- *Datganiad ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus*, CIPFA, 2010
- *Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol*, CIPFA, 2016
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19
- *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Côdd Ymarfer a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-Sectoraidd*, CIPFA, Argraffiad 2017
- *Côd Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd*, CIPFA, 2014
- Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn

This page is intentionally left blank



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

BLAENRAGLEN WAITH

Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

3 Rhagfyr 2019

Swyddog Cyswllt:	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg
E-bost:	MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Ffôn:	01248 756211

Dyddiad	Pwnc	Rheswm am adrodd	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
Chwefror 2020	Diweddariad Archwilio Mewnol	Diweddariad ar y cynnydd diweddaraf gan Archwilio Mewnol o ran sut mae'n cyflwyno'r gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant.	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Chwefror 2020	Adroddiad Cynnydd Archwilio Allanol	Diweddariad ar waith Archwilio Allanol: <ul style="list-style-type: none"> • Archwiliad ar Berfformiad • Archwiliad Ariannol 	Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad – Swyddfa Archwilio Cymru Alan.Hughes@audit.wales Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloitte cedge@deloitte.co.uk
Chwefror 2020	Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sy'n Weddill	Adroddiad manwl o'r holl faterion/risgiau archwilio mewnol sy'n weddill	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk Prif Archwilydd NanetteWilliams@ynysmon.gov.uk
Chwefror 2020	Adolygiad o'r Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risg	Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor.	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk

Dyddiad	Pwnc	Rheswm am adrodd	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
Chwefror 2020	Cofrestr Risg Gorfforaethol	Yn unol â'r cylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, ofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau.	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk Rheolwr Yswiriant a Risg JulieJones@ynysmon.gov.uk
Chwefror 2020	Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol	Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor.	Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
Chwefror 2020	Strategaeth Archwilio Mewnol 2020/21	Yn unol â'r safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (2017), rhaid i'r prif swyddog archwilio gyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar gyfer eu cymeradwyo	Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Chwefror 2020	Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 a'r Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2020/21	Mae gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli CIPFA mewn perthynas ag Arferion Rheoli Trysorlys yn argymhell y dylai awdurdodau lleol adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar eu strategaeth a chynllun rheoli, cyn cychwyn y flwyddyn. Bydd yr adroddiad yn sôn am y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol ar gyfer 2020/21 yn unol â gofynion y Côd Darbodus.	Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.gov.uk

This page is intentionally left blank

PRAWF BUDD Y CYHOEDD

PUBLIC INTEREST TEST

Polisi Gwirio Ar Sail Risg Budd-dal Tai / Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
Housing Benefit / Council Tax Reduction Risk Based Verification Policy

Paragraff 14 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Paragraph 14 of Schedule 12A Local Government Act 1972	
Y PRAWF – <i>THE TEST</i>	
<p>Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / <i>There is a public interest in disclosure as:-</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Mae'r polisi sydd a'r adroddiad sydd ynghlwm yn cynnwys manylion a allai roi tawelwch meddwl i'r cyhoedd fod gan y Cyngor weithdrefnau i ddiogelu'r system budd-daliadau tai rhag twyll a chamgymeriad.</i> • <i>The enclosed policy and report provides details which could reassure the public that the Council has procedures to secure benefit administration from fraud and error.</i> 	<p>Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / <i>The public interest in not disclosing is:-</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Mae'r wybodaeth sydd wedi ei hamlinellu yn y polisi a'r adroddiad amgaeedig yn cynnwys gwybodaeth a dadansoddiad o'r proffil hawlwr ble mae'r risg o dwyll neu gamgymeriad ar ei uchaf ac yn rhoi manylion am y prosesau a ddefnyddir i wirio hawliadau o'r fath. Byddai datgelu'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y Cyngor wrth iddo ymgymryd â'r gwaith hwn a gall cael effaith ar gyllidebau.</i> • <i>Byddai cyhoeddi hefyd yn darparu gwybodaeth sensitif mewn perthynas â phroffil yr achosion gyda hynny'n fwy tebygol o arwain at or-daliadau a gallai landlordiaid masnachol ddefnyddio'r wybodaeth a'i gwneud yn fwy anodd i'r sawl sy'n chwilio am lety i ddod o hyd i lety addas. Gall hyn hefyd gael effaith ar gyllidebau.</i> • <i>The information contained within the enclosed policy and report includes information and analysis of the claimant profile where the risk of fraud or error is highest and details information about the processes to check such claims. Disclosing the information in the report would limit the Council's effectiveness in undertaking this work and could have an affect on budgets..</i> • <i>Publication would also provide sensitive information relating to the profile of cases more likely to result in overpayments which commercial landlords could use making it more difficult for those seeking accommodation to find</i>

suitable accommodation. This too could affect the relevant budget.

Argymhelliad: Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth
Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.*

Document is Restricted

This page is intentionally left blank